

21 Mai 2019

Cymharu cymelliadau hyfforddi athrawon yng Nghymru a Lloegr



21 Mai 2019

Cymharu cymelliadau hyfforddi athrawon yng Nghymru a Lloegr

Adroddiad ar gyfer: Cyngor y Gweithlu
Addysg

Awdur: Nia Bryer a Luke Sibieta
Adolygiad cymheiriaid gan: Heledd
Bebb

Browerdd, Heol yr Ysgol
Llanarthne, Sir Gaerfyrddin
SA32 8HJ

01558 822 922
nia@ob3research.co.uk

38 Llewelyn Goch
Sain Ffagan, Caerdydd
CF5 6HR

029 2089 1724
heledd@ob3research.co.uk

Cynnwys	Tudalen
Geirfa	3
Cydnabyddiaethau	4
Crynodeb Gweithredol	5
1. Cyflwyniad	8
2. Methodoleg yr Astudiaeth	10
3. Cyd-destun Polisi	11
4. Cymelliadau Ariannol ITE	19
5. Hyfforddeion ITE a'r gweithlu addysgu	28
6. Canfyddiadau gwaith maes	36
7. Casgliadau ac argymhellion	52
Atodiad A: Bwrsariaeth ITE a data hyfforddeion	55

Geirfa

Acronym/Gair allweddol	Diffiniad
AY	Blwyddyn Academaidd
CGA	Cyngor y Gweithlu Addysg
EBacc	Bagloriaeth Lloegr
HESA	Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch
ITE	Addysg Gychwynnol i Athrawon
ITT	Hyfforddiant Addysgu Cychwynnol
NQT	Athrawon Newydd Gymhwyso
QTS	Statws Athro Cymwysedig
SCITT	Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon yn yr Ysgol
TAR	Tystysgrif Addysg i Raddedigion
PLASC	Cyfrifiad Ysgol Blynnyddol Lefel Disgyblion
WMIS	Cynllun Atodiad Cymhelliant Cyfrwng Cymraeg

Cydnabyddiaethau

Dymuna OB3 Research a Sibieta Economics of Education ddiolch i'r holl randdeiliaid, darparwyr ITE a hyfforddeion presennol ITE a gymerodd ran yn yr ymchwil yma am eu hamser a'u cyfraniad.

Crynodeb Gweithredol

Cyflwyniad

Penodwyd OB3 Research a Sibieta Economics of Education gan Gyngor y Gweithlu Addysg i wneud gwaith ymchwil er mwyn cymharu Cymelliadau Hyfforddi Athrawon yng Nghymru a Lloegr.

Nod yr ymchwil oedd asesu effaith cymelliadau yng Nghymru a Lloegr ar ôl recriwtio myfyrwyr ar raglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon (ITE) ôl-radd yng Nghymru a Lloegr.

Gofynion penodol yr ymchwil oedd:

- archwilio'r berthynas rhwng cynlluniau cymell yng Nghymru a Lloegr, ac effaith y rhai hynny ar recriwtio i ITE yn y ddwy wlad
- nodi patrymau cymelliadau a recriwtio yn ystod y blynyddoedd diweddar er mwyn penderfynu a oes yna gydberthynas rhyngddynt
- herio micro-naratif ar lefelau sefydliadol a gwleidyddol ynghylch effaith cystadleuaeth rhwng y ddwy wlad.

Roedd yr adolygiad yn cynnwys ymchwil bwrdd gwaith (yn cynnwys dadansoddi cymelliadau ariannol i hyfforddeion ITE ôl-radd yng Nghymru a Lloegr a thueddiadau o ran nifer yr hyfforddeion yn ôl pwnc a dosbarthiad gradd) a gwaith maes gyda rhanddeiliaid polisi, chwe darparwr ITE yng Nghymru a Lloegr a naw o hyfforddeion ITE.

Canfyddiadau allweddol

Prif ganfyddiadau'r ymchwil mewn perthynas â chymelliadau ITE oedd:

- Mae cymelliadau ITE wedi bod yn gymharol sefydlog yng Nghymru o'i gymharu â Lloegr, ble bu newidiadau rheolaidd. Mae newidiadau rheolaidd yn Lloegr wedi arwain at ansicrwydd mawr a dryswch ymysg hyfforddeion a darparwyr.
- Mae gwerth cymelliadau ariannol sydd ar gael i hyfforddeion sydd yn ymgymryd â'u cyrsiau ITE yn Lloegr yn fwy hael ar gyfer y rhan fwyaf o bynciau uwchradd ac ar gyfer y rhan fwyaf o lefelau cymwysterau gradd. Y lefel cymhelliant ariannol uchaf yn Lloegr ar hyn o bryd yw £26,000 o'i gymharu â £20,000 yng Nghymru, er y gallai hyfforddeion sydd yn dilyn cwrs ITE drwy gyfrwng y Gymraeg gael hawl i dderbyn uchafswm o £25,000.
- Bu dargyfeirio cynyddol o ran cymhwysedd i dderbyn bwrsariaeth rhwng Cymru a Lloegr yn ystod y cyfnod o naw mlynedd.

- Yn Lloegr canolbwyntiwyd ar gynyddu bwrsariaethau i raddedigion sydd â dosbarthiad gradd is, fel nad oes bron i ddim amrywiaeth yn ôl dosbarthiad gradd blaenorol.
- Mae gwariant ar fwrsariaethau ariannol yng Nghymru wedi gostwng yn ystod y tair blynedd diwethaf. Yn ystod AY 2016/17 dyfarnwyd cyfanswm o £2.870 miliwn i 286 o hyfforddeion ITE, yn ystod AY 2017/18 dyfarnwyd £1.873 miliwn i 292 o fyfyrwyr, ac ym mis Mawrth 2019, yn ystod AY 2018/19 dyfarnwyd cyfanswm o £1.245 hyd yma i 277 o fyfyrwyr. Gostyngodd y fwrsariaeth ariannol gyfartalog am bob hyfforddai o £7,297 yn ystod AY 2016/17 i £6,412 yn ystod AY 2017/18.

Y prif ganfyddiadau mewn perthynas â recriwtio ITE oedd:

- Gostyngodd nifer yr hyfforddeion ITE ôl-radd sydd yn astudio yng Nghymru a Lloegr yn ystod y blynyddoedd diweddar (e.e. o 1,370 i 955 yng Nghymru rhwng AY 2010/11 ac AY 2016/17) ac mae'r rhan fwyaf o'r gostyngiad yma yn cael ei briodoli i ostyngiad yn y niferoedd sydd yn astudio er mwyn addysgu mewn ysgolion uwchradd.
- Mae llif dros y ffin o Gymru i Lloegr wedi cynyddu. Ma nifer yr hyfforddeion sydd yn hanu o Gymru sydd yn dilyn cyrsiau yn Lloegr wedi codi o 23 y cant yn AY 2010/11 i 34 y cant erbyn AY 2016/17. Awgrymodd darparwyr ITE bod hynny wedi cynyddu mwy mae'n debyg yn ystod y blynyddoedd diweddar. Mae myfyrwyr sydd yn hanu o Ogledd Cymru yn llawer mwy tebygol o ddilyn eu cwrs ITE yn Lloegr.
- Mae data Arolwg Cyrchfan Gadawyr HESA yn dangos bod cyfran yr hyfforddeion ITE sydd yn cwblhau eu cwrs yng Nghymru sydd yn aros yng Nghymru wedi cynyddu'n flynyddol rhwng AY 2011/12 ac AY 2016/17 o 72 y cant i 85 y cant.
- Bydd angen i lefel recriwtio athrawon gynyddu er mwyn gwasanaethu'r boblogaeth gynyddol o ddisgyblion
- Mae Cymru a Lloegr yn cael trafferth recriwtio athrawon mewn pynciau blaenoriaeth uchel, ac nid oes tystiolaeth bod cynnig bwrsariaeth uwch yn Lloegr wedi gwneud unrhyw wahaniaeth.
- Mae yna dystiolaeth sydd yn awgrymu bod y cynnydd mawr mewn bwrsariaethau ar gyfer Daearyddiaeth, Saesneg a Bioleg yn Lloegr wedi cynyddu'r lefel recriwtio yn y pynciau hynny. Cadarnhawyd hynny gan gyfweiliadau gyda darparwyr ITE yng Nghymru a siaradodd am y problemau mae hynny yn ei achosi oherwydd ei bod yn llawer mwy buddiol yn ariannol i hyfforddi yn Lloegr.

- Yn anffodus, nid yw niferoedd recriwtio a hyfforddi yng Nghymru ond ar gael ar gyfer 2016/17, tra bod data ar gyfer Lloegr ar gael hyd at 2018/19. Mae hynny yn golygu bod gan lunwyr polisi yng Nghymru lai o wybodaeth ar gael ar adeg allweddol yn y maes polisi yma.

Argymhellion

Mae'r adroddiad yn cynnig chwe argymhelliad:

- **Cynnig bwrsariaeth symlach a mwy safonol yng Nghymru** - dylid safoni bwrsariaethau ITE yng Nghymru yn ôl dosbarthiad gradd blaenorol, a gallai targedu bwrsariaethau yn ehangach helpu niferoedd recriwtio yn gyffredinol a darparu neges gliriach i ddarpar hyfforddeion.
- **Mwy o wariant a fwsariaethau yng Nghymru** - efallai y bydd angen mwy o wario yng Nghymru er mwyn cystadlu'n effeithiol â'r cynnydd mewn bwrsariaethau yn Lloegr yn ystod y blynnyddoedd diweddar - mewn Saesneg, Bioleg a Daearyddiaeth yn benodol. Gellid ariannu hynny drwy ostwng y cyfraddau uchaf ar gyfer graddau dosbarth cyntaf mewn pynciau blaenoriaeth uchel, neu drwy ddiddymu'r bwrsariaethau o £3,000 ar gyfer rhai pynciau
- **Ystyried canolbwyntio ar arbenigedd pwnc** - gallai llunwyr polisi yng Nghymru greu cynnig penodol o dalu bwrsariaethau ychwanegol os bydd unigolion yn hyfforddi mewn pwnc y mae ganddynt radd perthnasol uniongyrchol ynddo. Byddai hynny yn caniatáu i ddarparwyr hysbysu prif gyfraddau uwch, ond dylid cydbwyso hynny yn erbyn yr angen i gynnig darpariaeth glir a symlach
- **Ymgych fwy amlwg ar gyfer recriwtio athrawon yng Nghymru** - mae angen ymgych fwy amlwg ar gyfer recriwtio athrawon yng Nghymru fyddai'n pwysleisio buddion a nodweddion neilltuol hyfforddi ac addysgu yng Nghymru, er mwyn cystadlu gydag ymgychchoedd effeithiol yn Lloegr.
- **Ymateb i'r Strategaeth Recriwtio a Chadw Athrawon yn Lloegr** - dylai llunwyr polisi yng Nghymru ystyried cynllun cyffelyb i strategaeth recriwtio a chadw athrawon yn Lloegr sydd newydd gael ei gyhoeddi gan yr Adran Addysg, sydd yn cynnwys fframwaith gyrfu gynnar newydd ar gyfer athrawon, mwy o gyfleoedd ar gyfer datblygu proffesiynol a bonysau cadw fesul cam er mwyn cymell unigolion i aros ym myd addysg (gan amnewid rhan o'r fwsariaeth ITE bresennol o bosibl)
- **Data mwy amserol ar recriwtio a chadw athrawon yng Nghymru** - mae data ar recriwtio a chadw athrawon yng Nghymru yn gymharol hen, sydd yn golygu bod llunwyr polisi yng

Nghymru yn wynebu anfantais o'i gymharu â Lloegr ac mae'n cyfyngu ar eu gallu i ymateb i newidiadau diweddar. O ystyried y nifer fechan o ddarparwyr ITE yng Nghymru, dylai fod yn bosibl casglu data amserol a chywir am niferoedd recriwtio ITE yn ôl pwnc.

1. Cyflwyniad

- 1.1 Ym mis Chwefror 2019, penododd Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) OB3 Research mewn cydweithrediad â Sibieta Economics of Education, i gynnal ymchwil er mwyn cymharu Cymelliadau Hyfforddi Athrawon yng Nghymru a Lloegr.
- 1.2 Nod yr ymchwil yw asesu effaith cymelliadau yng Nghymru a Lloegr ar ôl recriwtio myfyrwyr ar raglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon (ITE) ôl-radd yng Nghymru a Lloegr. Fel yn achos y confensiynau safonol ym mhob un o'r ddwy wlad, rydym yn gyffredinol yn cyfeirio at Addysg Gychwynnol i Athrawon (ITE) yng Nghymru a Hyfforddiant Addysgu Cychwynnol (ITT) yn Lloegr yn yr adroddiad hwn.
- 1.3 Gofynion penodol yr ymchwil, fel y nodir hynny yn y fanyleb, yw:
 - archwilio'r berthynas rhwng cynlluniau cymhelliant yng Nghymru a Lloegr, ac effaith y rhai hynny ar recriwtio i ITE yn y ddwy wlad
 - nodi patrymau cymelliadau a recriwtio yn ystod y blynyddoedd diweddar er mwyn penderfynu a oes yna gydberthynas rhyngddynt
 - herio micro-naratif ar lefelau sefydliadol a gwleidyddol ynghylch effaith cystadleuaeth rhwng y ddwy wlad.
- 1.4 Mae'r fethodoleg a fabwysiadwyd ar gyfer yr astudiaeth hon wedi cynnwys ymchwil bwrdd gwaith yn cynnwys dadansoddi cymelliadau ariannol i hyfforddeion ITE ôl-radd yng Nghymru a Lloegr a thueddiadau o ran nifer yr hyfforddeion yn ôl pwnc a dosbarthiad gradd, canfyddiadau o waith maes gyda rhanddeiliaid allweddol, yn ogystal â darparwyr ITE yng Nghymru a Lloegr, a nifer fechan o hyfforddeion presennol.
- 1.5 Mae'r adroddiad yma wedi ei chyflwyno mewn chwe phennod fel a ganlyn:
 - pennod un: cyflwyniad i'r adroddiad
 - pennod dau: amlinelliad o fethodoleg yr astudiaeth
 - pennod 3: cefndir cryno a chyd-destun polisi ar gyfer ITE yng Nghymru a Lloegr
 - pennod 4: dadansoddiad o gymelliadau ITE a recriwtio yng Nghymru a Lloegr
 - pennod 5: canfyddiadau gwaith maes gyda rhanddeiliaid allweddol, darparwyr ITE a myfyrwyr ITE presennol

- pennod chwech: casgliadau ac argymhellion i CGA eu hystyried.

2. Methodoleg yr Astudiaeth

2.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu'r dull a ddefnyddiwyd ar gyfer cynnal yr ymchwil ac yn ystyried ystyriaethau methodolegol allweddol.

Dull

- 2.2 Mae'r ymchwil, a gynhaliwyd rhwng Chwefror a Mai 2019 wedi cynnwys yr elfennau gwaith canlynol:
- cam cychwynnol oedd yn cynnwys cyfarfod cychwynnol gyda grŵp llywio'r astudiaeth, yn cynnwys swyddogion CGA, a pharatoi dull methodolegol wedi ei fireinio a chynllun prosiect
 - dadansoddiad bwrdd gwaith o'r dogfennau polisi allweddol ac ymchwil presennol mewn perthynas â darpariaeth ITE ar draws Cymru a Lloegr
 - mynediad at a dadansoddi data mewn perthynas â (i) cymelliadau ITE yng Nghymru a Lloegr a (ii) recriwtio ITE yng Nghymru a Lloegr, yn cynnwys data ar y niferoedd sydd yn mynd i'r proffesiwn addysgu
 - paratoi cyfres o offerynnau ymchwil er mwyn hysbysu trafodaethau gyda rhanddeiliaid allweddol, darparwyr a'u partner ysgolion yn ogystal â myfyrwyr ITE presennol
 - cyfweld â phum rhanddeiliad polisi¹
 - Cyfweld â chwe darparwr ITE: pedwar yng Nghymru a dau yn Lloegr. Mewn dau achos cynhaliwyd cyfweiliadau hefyd gyda naw unigolyn oedd yn ymgymryd ag ITE
 - syntheseiddio canfyddiadau'r ymchwil a pharatoi'r adroddiad terfynol yma ar gyfer CGA.

Ystyriaethau methodolegol


- 2.3 Un cyfyngiad pwysig yn achos y dadansoddiad desg yw mai dim ond at AY 2016/17 y mae data HESA cyhoeddedig ar hyfforddeion ITE ar gael. Oherwydd hynny mae'n amhosibl cynnig unrhyw arsylwadau cymharol ar dueddiadau diweddar yng Nghymru yn ystod 2017/18 a'r flwyddyn academaidd bresennol. Disgwylir y bydd data ar gyfer 2017/18 yn cael ei gyhoeddi ym Mai 2019. Mae darparu data mwy amserol ar recriwtio ITE yng Nghymru yn un o'n argymhellion allweddol.
- 2.4 Er gwaethaf cysylltu â dwy ysgol bartneriaeth ITE a threfnu i'w cyfweld yn ystod y gwaith maes, roedd yn anodd i gyfweleion gyfrannu yn ystod yr amserlenni gofynnol.

¹ UCAC, GWE, EAS, Llywodraeth Cymru a'r Adran Addysg, Llywodraeth y DU.

3. Cyd-destun polisi

- 3.1 Mae'r bennod hon yn nodi cefndir cryno a chyd-destun polisi ar gyfer ITE yng Nghymru a Lloegr.
- 3.2 Y brif her gyffredinol sydd yn wynebu llunwyr polisi yng Nghymru a Lloegr yw recriwtio a chadw niferoedd digonol o athrawon er mwyn bodloni'r twf disgwylidig mewn poblogaeth disgyblion yn y ddwy wlad.
- 3.3 Mae Ffigwr 3.1 yn dangos lefel poblogaeth disgyblion ysgol cynradd ac uwchradd yng Nghymru a Lloegr mewn perthynas â'u lefelau perthnasol yn 2010. Rhwng 2010 a 2018 bu cynnydd o 15 y cant ym mhoblogaeth ysgolion cynradd Lloegr, tra bod y boblogaeth uwchradd wedi aros yn gymharol gyson. Yng Nghymru, bu cynnydd o 7 y cant ym mhoblogaeth ysgolion cynradd rhwng 2010 a 2018, tra bu gostyngiad o 15 y cant ym mhoblogaeth ysgolion uwchradd.
- 3.4 Yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf, disgwylir y bydd poblogaeth ysgolion uwchradd yn cynyddu'n gyflym yn y ddwy wlad. Yn Lloegr, disgwylir y bydd cynnydd o 13 y cant ym mhoblogaeth ysgolion uwchradd rhwng 2018 a 2023, a thua 10 y cant yng Nghymru. Mae hynny yn achosi heriau sylweddol i lunwyr polisi oherwydd bu'n anoddach recriwtio a chadw athrawon ysgol uwchradd. Er enghraifft, er bod targedau recriwtio wedi cael eu cyrraedd yn gyffredinol ar gyfer athrawon cynradd yn Lloegr, yn gyffredinol methwyd y targedau ar gyfer athrawon uwchradd.

Ffigwr 3.1 - Niferoedd disgyblion dros gyfnod o amser yng Nghymru a Lloegr



Ffynonellau: Lloegr (Yr Adran Addysg, Pupils, Schools and their Characteristics, Ionawr 2018; Rhagamcanion Disgyblion Cenedlaethol: Gorffennaf 2018), Cymru (Llywodraeth Cymru, canlyniadau Cyfrifiad Ysgolion 2018 a 2014; Ystadegau Cymru, Rhagamcanion Disgyblion).

Cymru

3.5 Mae'r cyd-destun polisi Cymreig ar gyfer yr ymchwil yma yn cynnwys:

- **Gostyngiad cynlluniedig yn nifer yr hyfforddeion ITE:** Rhwng 2005/06 a 2013/14 amcanodd Llywodraeth Cymru at ostwng nifer yr hyfforddeion ITE yng Nghymru gyda'r nod o ymateb i gostyngiad yn niferoedd disgyblion yn ysgolion Cymru. Roedd hynny yn ymateb i'r argymelliadau a gynigiwyd yn Adolygiad o Ddarpariaeth Hyfforddiant Addysgu Cychwynnol yng Nghymru. O ganlyniad i hynny, gellir priodoli llawer o'r gostyngiad yn niferoedd hyfforddeion ITE yn ystod y cyfnod hwnnw yr adroddir amdano ym Mhennod 4 i newid ym mholisi Llywodraeth Cymru.
- **Gofynion mynediad hyfforddeion:** Er mwyn cymhwyso am gwrs hyfforddi athrawon Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR), mae'n rhaid i ymgeiswyr (yn ogystal â dal gradd israddedig) fod wedi cyrraedd safon sydd yn gyfwerth â gradd B, neu uwch, mewn TGAU Saesneg a/neu Gymraeg a Mathemateg cyn dechrau ar y cwrs. Mae prawf cywerthedd ar gael i ymgeiswyr (a weinyddir gan ddarparwyr ITE unigol) sydd, os llwyddir ynddynt, yn eu galluogi i fwrw ymlaen â'r cwrs TAR. Dim ond ymgeiswyr sydd eisoes wedi cael Gradd C TGAU yn y pwnc ac sydd yn llwyddiannus ym mhob elfen arall o'r broses gyfweld all gymryd y prawf.
- **Diwygio cwricwlwm ac addysg:** Yn dilyn adolygiad yr Athro Graham Donaldson o'r cwricwlwm ac asesu yng Nghymru² cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei gynlluniau ar gyfer datblygu a gweithredu cwricwlwm addysg newydd³. Datblygwyd mwy ar y cynlluniau yma yn nogfen polisi allweddol Addysg yng Nghymru: Ein Cenhadaeth Genedlaethol - Cynllun Gweithredu 2017-2021⁴ sydd yn nodi sut fydd y cwricwlwm newydd yn cael ei weithredu a beth fydd yn ddisgwyliedig o ysgolion cyn cyflwyno'r cwricwlwm newydd ym Medi 2022.
- **Newidiadau i'r sector addysg gychwynnol i athrawon yng Nghymru:** O ganlyniad i argymhellion yr Athro John Furlong yn Addysgu Athrawon y Dyfodol (2015) sefydlodd Llywodraeth Cymru feini prawf achredu newydd ar gyfer rhaglenni addysg gychwynnol i athrawon yng Nghymru o Fedi 2019 ymlaen. Fel rhan o'r newid hwnnw, penodwyd

² Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru* <http://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-en.pdf>

³ Llywodraeth Cymru (2015) *Cymwys am Oes: Cwricwlwm i Gymru, Cwricwlwm am Oes*

⁴ Llywodraeth Cymru (2017) *Addysg yng Nghymru: Ein Cenhadaeth Genedlaethol, Cynllun Gweithredu 2017 - 21* <https://gov.wales/docs/dcells/publications/170926-education-in-wales-en.pdf>

Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) gan Lywodraeth Cymru i achredu rhaglenni ITE unigol. Goruchwyliwyd y broses achredu gan Fwrdd Achredu Addysg Gychwynnol i Athrawon. Achredwyd pedair partneriaeth er mwyn darparu rhaglenni ITE ôl-radd (cynradd ac uwchradd) o Fedi 2019 ymlaen, sef:

- Partneriaeth ITE Aberystwyth (sydd yn cynnwys Prifysgol Aberystwyth)
 - Partneriaeth CaBan (sydd yn cynnwys Prifysgol Caer a Phrifysgol Bangor)
 - Partneriaeth Caerdydd (sydd yn cynnwys Prifysgol Fetropolitan Caerdydd)
 - Yr Athrofa: Partneriaeth Dysgu Proffesiynol (sydd yn cynnwys Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant)
- **Cyflwyno cynllun Athrawon Graddedig newydd:** Yn ogystal â'r llwybrau ôl-radd yma i fyd addysg, mae cynllun Athrawon Graddedig ar gael hefyd yng Nghymru er mwyn cynorthwyo cyflogwyr ysgolion i ennill Statws Athro Cymwysedig (SAC) tra eu bônt yn gyflogedig. Oherwydd bod maint y cohort targed wedi lleihau dros amser mae'r cynllun yma wedi cyrraedd ei flwyddyn olaf a bydd yn cael ei ddisodli gan lwybr amgen newydd i fyd addysg. Bydd y llwybr newydd yma yn cael ei ddarparu gan y Brifysgol Agored fel TAR rhan amser a disgwylir y bydd yr hyfforddeion cyntaf yn cael eu cofrestru o Chwefror 2020 ymlaen. Disgwylir y bydd y cynllun yn apelio i rai nad ydynt yn gallu dilyn llwybr astudio addysgu llawn amser, yn arbennig rhai sydd yn dymuno hyfforddi'n lleol ble maent yn byw.
 - **Darpariaeth freiniol:** Hefyd gall hyfforddeion ddewis dilyn llwybr ôl-radd arall i fyd addysg ym Mhrifysgol Glyndŵr, oherwydd bod ganddi gytundeb breiniol i ddarparu hyfforddiant athrawon TAR cynradd gyda Phrifysgol St Mary yn Llundain. Gall hyfforddeion gael mynediad at fwrsariaethau sydd ar gael i fyfyrwyr sydd ymgymryd â'u ITE gyda darparwr o Loegr.
 - **Safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth:** Ym Medi 2017⁵, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru safonau proffesiynol newydd ar gyfer athrawon y mae'n ofynnol i Athrawon Newydd Gymhwys (ANG) weithio yn unol â nhw.
 - **Cyllid myfyrwyr:** Ar hyn o bryd mae unigolion sydd yn dilyn cyrsiau ITE yng Nghymru yn wynebu ffioedd o £9,000 y gall benthyciad ffioedd dysgu dalu amdanynt. Mae

⁵ <https://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/170901-professional-standards-for-teaching-and-leadership-en.pdf>

hynny yn cael ei ychwanegu at unrhyw ddyled israddedig fydd gan fyfyrwyr, sydd ar hyn o bryd yn gallu amrywio o tua £30,000 i £52,000 (yn ddibynnol ar incwm yr aelwyd) yn achos y rhan fwyaf o fyfyrwyr sydd yn astudio yng Nghymru⁶. Yna bydd y cyfuniad o ddyled myfyrwyr israddedig ac unrhyw fenthyciadau ffioedd ar gyfer ITE yn cael eu had-dalu drwy ad-daliadau graddedigion o 9 y cant o incwm sydd dros £25,000. Bydd y ddyled yn cronni llog, ond bydd unrhyw ddyled fydd heb ei dalu ar ôl 30 mlynedd yn cael ei ddileu.

- **Gostyngiad i ffioedd dysgu myfyrwyr sydd yn hanu o Gymru:** Ar gyfer AY 2018-19 mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth ychwanegol i fyfyrwyr ôl-radd o Gymru sydd yn dewis astudio yng Nghymru. Mae grant o £1,000, nad yw'n destun prawf modd, ar gael i bob myfyriwr ôl-radd cymwys, a chyfeirir ato yn gyffredinol fel ffioedd dysgu gostyngiad gwarantedig.

Lloegr

3.6 Mae'r cyd-destun polisi yn Lloegr sydd wedi hysbysu'r ymchwil yma yn cynnwys:

- **Rhaniad rhwng llwybrau drwy ddarparwyr a chyflogaeth** - Yn fras, mae hyfforddiant athrawon yn Lloegr wedi ei rannu rhwng dau lwybr gwahanol. Mae llwybrau drwy ddarparwyr yn cynnwys hyfforddiant ôl-radd traddodiadol mewn Sefydliadau Addysg Uwch a Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon yn yr Ysgol (SCITT). Roedd llwybrau drwy ddarparwyr yn cyfateb i tua dwy ran o dair o hyfforddeion ysgol uwchradd yn Lloegr yn ystod AY 2018/19 a thua 70 y cant o hyfforddeion ysgol cynradd. Mae bron yr holl hyfforddeion ysgol uwchradd yn dilyn llwybr ôl-radd. Mae tua 60 y cant o hyfforddeion ysgol gynradd sydd yn dilyn llwybrau drwy ddarparwyr yn dilyn cwrs ôl-radd, a'r gweddill yn dilyn cyrsiau israddedig.
- **Datblygu llwybrau newydd drwy gyflogaeth** - Lansiwyd School Direct yn Lloegr yn 2012 fel math newydd o hyfforddiant athrawon yn y gweithle. Gall hyfforddeion School Direct fod yn rhan o'r cynllun "cyflogedig", pan fo hyfforddeion yn cael eu cyflogi gan ysgolion unigol, yn derbyn cyflog, yn derbyn hyfforddiant yn y gweithle, yn talu dim ffioedd ac yn derbyn dim bwrsariaethau. Mae'r cyrsiau yn cael eu hardystio gan sefydliad addysg uwch neu SCITT. Gallent hefyd fod yn rhan o'r llwybr "cyllido ffioedd", sydd yn cyfateb i bron i dri chwarter hyfforddeion School Direct yn ystod AY

⁶ <https://www.studentfinancewales.co.uk/undergraduate-students/new-students/what-financial-support-is-available/help-with-living-costs.aspx>

2018/19. Yn y fersiwn hon o School Direct, mae hyfforddeion yn cael eu cysylltu ag ysgolion unigol, ond yn derbyn llawer o'u hyfforddiant mewn Sefydliadau Addysg Uwch neu SCITT. Nid ydynt yn derbyn cyflog ac maent yn atebol am ffioedd, ond maent yn gymwys i dderbyn bwrsariaethau. Hefyd, gall hyfforddeion ymuno drwy Teach First, fel y gwnaeth cyfanswm o tua 1,200 o hyfforddeion yn ystod AY 2018/19, neu tua 3 y cant o'r cyfanswm. Hefyd cyflwynwyd prentisiaeth addysgu ôl-radd, ond dim ond tua 90 o hyfforddeion a ddilynodd hynny yn ystod AY 2018/19.

- **Newidiadau mawr mewn cymelliadau ITE** - Hyd at 2011/12 roedd gan unigolion ar gyrsiau hyfforddiant athrawon ôl-radd yn Lloegr hawl i dderbyn bwrsariaethau o £9,000, £6,000 neu ddim, yn ddibynnol ar a oeddent yn hyfforddi i addysgu pwnc ble roedd prinder. Yn AY 2012/13 cynyddodd yr Adran Addysg fwrsariaethau yn sylweddol ar gyfer graddedigion â graddau perthnasol mewn pynciau ble roedd prinder ac oedd â dosbarthiadau gradd uchel. Gostyngwyd bwrsariaethau i ddim ar gyfer graddedigion oedd â graddau mewn rhai pynciau a/neu rai â dosbarthiadau graddau is. Fel y byddwn yn gweld, mae'r bwrsariaethau yma wedi cael eu cynyddu a'u haddasu'n barhaus dros amser, gan leihau'r gwahaniaeth mewn bwrsariaethau yn ôl dosbarthiad gradd. Mae'r newidiadau yma wedi deillio'n bennaf o fethiant parhaus i gyrraedd targedau **recriwtio**.
- **Cyllid myfyrwyr** - Ar hyn o bryd disgwylir i fyfyrwyr sydd yn hanu o Loegr sydd yn atebol i dalu ffioedd dysgu dalu hyd at £9,250 y flwyddyn a gallent gymryd benthyciad ffioedd dysgu i dalu am y costau. Fel yng Nghymru, mae hynny yn cael ei ychwanegu at gyfanswm dyled myfyrwyr ac mae'r cyfraddau ad-dalu i raddedigion yn ddigyfnewid (h.y. mae graddedigion yn ad-dalu 9 y cant o incwm dros £25,000 faint bynnag yw cyfanswm y ddyled neu'r ffynhonnell⁷). Oherwydd bod myfyrwyr sydd yn hanu o Loegr eisoes yn cronni lefelau uchel o ddyled myfyrwyr yn ystod eu cyrsiau israddedig, mae Allen et al (2014) yn dangos na fyddai unigolyn sydd yn dilyn gyrfa athro cyfartalog hyd yn oed yn dechrau ad-dalu'r benthyciad ychwanegol ar gyfer hyfforddiant athrawon⁸. Gellir dangos hynny drwy ystyried myfyriwr fyddai'n graddio â dyled myfyriwr o £50,000⁹. Petai'r unigolyn yma yn ennill £40,000 y flwyddyn am 30 mlynedd

⁷ Mae hynny yn wahanol i fenthyciadau myfyrwyr ôl-radd ar gyfer cyrsiau meistr yn Lloegr, gaiff eu had-dalu'n gydamserol ar 6% yn uwch na lefelau incwm o £21,000. Gallai unigolyn sydd â'r ddau fenthyciad fod yn gwneud ad-daliadau o 15% yn uwch na lefelau incwm o £25,000.

⁸ Allen, R., Belfield, C., Greaves, E., Sharp, C. and Walker, M. (2014), 'The costs and benefits of different initial teacher training routes', Sefydliad Astudiaethau Cyllid (IFS) Adroddiad R100 (<http://www.ifs.org.uk/publications/7435>)

⁹ Dyma lefel y ddyled myfywyr cyfartalog a gronnir yn Lloegr. See Belfield, C., Farquharson, C. and Sibiet, L (2018), '2018 Annual Report on Education Spending in England' (<https://www.ifs.org.uk/uploads/publications/comms/R150.pdf>).

ar ôl cwblhau ei gwrs, byddai'n ad-dalu cyfanswm o £40,500 cyn i weddill ei ddyled (ac unrhyw log) gael ei ddileu. Hyd yn oed yn y senario yma ar gyfer cyflog athro, ni fyddai ychwanegu £9,250 at gyfanswm dyled unigolyn yn effeithio bron ddim ar wir ad-daliadau unigolyn yn ystod ei oes.

- **Strategaeth recriwtio a chadw newydd** - Yn Ionawr 2019 cyhoeddodd yr Adran Addysg strategaeth recriwtio a chadw newydd¹⁰. Roedd honno yn cynnig fframwaith gyrfa gynnar newydd ar gyfer athrawon yn Lloegr yn ystod eu dwy flynedd gyntaf o addysgu, ac yn ystod y cyfnod hwnnw byddent yn gallu derbyn hawl newydd wedi ei ariannu i gael cymorth a datblygiad o ansawdd uchel. Roedd hefyd yn cynnwys cynnig i newid cymelliadau ariannol o fwsariaethau yn ystod hyfforddiant i gymelliadau cadw. Mae'r newid yma yn cael ei ysgogi gan y gronfa dystiolaeth empirig gref sydd yn dangos effeithiolrwydd bonysau cadw¹¹. Byddai'r rhain yn cael eu modelu ar y system newydd o fonysau cadw ar gyfer athrawon mathemateg fyddai yn dechrau eu hyfforddiant yn Lloegr yn ystod AY 2018/19. O dan y system yma, mae athrawon mathemateg yn derbyn taliadau o £5,000 os ydynt yn addysgu dair neu bum mlynedd ar ôl cwblhau eu hyfforddiant (gyda thaliadau ychwanegol o £7,500 os ydynt yn addysgu mewn awdurdodau lleol targed). Ariannwyd hynny drwy ostwng bwsariaethau mathemateg yn ystod hyfforddiant.
- **Dyhead i gynyddu cyfraddau mynediad i Fagloriaeth Lloegr** - Mae'r Adran Addysg wedi pennu uchelgais i 90 y cant o ddisgyblion TGAU gael mynediad at Fagloriaeth Lloegr (Ebacc) erbyn 2025 o'i gymharu â 38 y cant ar hyn o bryd. Er mwyn cael mynediad at Ebacc, mae'n rhaid i fyfyrwyr TGAU fod yn dilyn pynciau sydd yn cynnwys Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Daearyddiaeth/Hanes ac Iaith. Bydd cynyddu nifer yr athrawon i gyflawni'r dyhead hwnnw yn heriol. Mae nifer o'r pynciau yma wedi wynebu problemau parhaus o ran recriwtio a chadw. Er enghraifft, yn ystod AY 2018/19 ni chyrraeddwyd targedau hyfforddi mewn Mathemateg (71% o'r targed wedi ei gyrraedd), Cemeg (79%), Ffiseg (47%), Ieithoedd Modern (88%) a Daearyddiaeth (85%).

¹⁰ Yr Adran Addysg (2019), *Teacher Recruitment and Retention Strategy*, <https://www.gov.uk/government/publications/teacher-recruitment-and-retention-strategy>

¹¹ Sibiet, L. (2018), *Teacher Labour Market in England: Shortages, Subject Expertise and Incentives*, Y Sefydliad Polisi Addysg, <https://epi.org.uk/publications-and-research/the-teacher-labour-market-in-england/>

4. Cymelliadau Ariannol ITE

- 4.1 Mae'r bennod hon yn darparu dadansoddiad o gymelliadau ITE yng Nghymru a Lloegr. I ddechrau mae'n ystyried bwrsariaethau ITE sydd ar gael yn y ddwy wlad cyn ystyried y cymelliadau cyfrwng Cymraeg ychwanegol sydd ar gael yng Nghymru.

Bwrsariaethau ITE

- 4.2 Mae Tabl 4.1 yn nodi'r lefelau bwrsariaethau presennol sydd ar gael i hyfforddeion ITE sydd yn dilyn cyrsiau TAR ôl-radd yng Nghymru a Lloegr yn ystod AY 2018/19 yn ôl pwnc a chymhwyster gradd. Mae bwrsariaethau yn cael eu grwpio yn ôl gwerth i gategorïau uchel, canolig ac isel (fel y penderfynir hynny yn ôl gwerth dyfarniadau yng Nghymru). Y prif arsylwadau yw:

- Mae gwerth cymelliadau ariannol sydd ar gael i hyfforddeion sydd yn ymgymryd â'u cyrsiau ITE yn Lloegr yn fwy hael ar gyfer y rhan fwyaf o bynciau uwchradd ac ar gyfer y rhan fwyaf o lefelau cymwysterau gradd
- Y lefel cymhelliant ariannol uchaf yn Lloegr ar hyn o bryd yw £26,000 o'i gymharu â £20,000 yng Nghymru, er y gallai hyfforddeion sydd yn dilyn cwrs ITE drwy gyfrwng y Gymraeg gael hawl i dderbyn uchafswm o £25,000.
- Dyfernir y lefel uchaf o gymelliadau ariannol yn Lloegr beth bynnag fo'r cymhwyster gradd, tra yng Nghymru mae lefel y cymhelliant ariannol yn gostwng ar gyfer cymwysterau gradd is. Mae'r diffyg gwahaniaeth yn Lloegr yn cynrychioli newid sylweddol mewn polisi o'i gymharu ag AY 2012/13.
- Mae yna chwe phwnc sydd â bwrsariaethau gwerth uchel yng Nghymru (Mathemateg, Cemeg, Ffiseg, Cyfrifiadureg, Ieithoedd Modern a Chymraeg), tra yn Lloegr mae yna saith pwnc sydd â bwrsariaethau lefel uwch (nad yw'n cynnwys Cymraeg ond sydd yn cynnwys Bioleg a Daearyddiaeth)
- Pynciau Bioleg a Daearyddiaeth sydd â'r gwahaniaeth mwyaf yng ngwerth y bwrsariaeth ariannol sydd ar gael. Mae hyfforddeion yn y pynciau hyn yn Lloegr yn derbyn £26,000 beth bynnag fo'r dosbarthiad gradd, tra gall hyfforddeion yng Nghymru dderbyn £3,000 yn unig a dim ond os oes ganddynt gymhwyster gradd dosbarth cyntaf.
- Mae pum pwnc yn denu lefelau bwrsariaeth ariannol uwch yng Nghymru o'i gymharu â Lloegr (Celf a Dylunio, Addysg Gorfforol, Astudiaethau Busnes, Drama ac

Astudiaethau Awyr Agored). Yn y pynciau hyn, cynigir £3,000 yng Nghymru os oes gan yr hyfforddeion radd dosbarth cyntaf, ond ni chynigir bwrsariaeth yn Lloegr.

Tabl 4.1 - Lefelau bwrsariaeth yng Nghymru a Lloegr, AY 2018/19

	Cymru			Lloegr			Gwahaniaeth (Cymru-Lloegr)		
	1af ¹²	2:1	2:2	1af ¹³	2:1	2:2	1af	2:1	2:2
Bwrsariaeth Uchel									
Mathemateg	£20,000	£10,000	£6,000	£20,000	£20,000	£20,000	£0	-£10,000	-£14,000
Cemeg, Ffiseg a Chyfrifiadureg	£20,000	£10,000	£6,000	£26,000	£26,000	£26,000	-£6,000	-£16,000	-£20,000
Ieithoedd Modern	£15,000	£6,000	£0	£26,000	£26,000	£26,000	-£11,000	-£20,000	-£26,000
Cymraeg	£20,000	£10,000	£6,000	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Bwrsariaeth Ganolig									
Bioleg a Daearyddiaeth	£3,000	£0	£0	£26,000	£26,000	£26,000	-£23,000	-£26,000	-£26,000
Saesneg	£3,000	£0	£0	£15,000	£15,000	£15,000	-£12,000	-£15,000	-£15,000
Bwrsariaeth Isel									
Hanes, Cerddoriaeth ac Astudiaethau Crefyddol	£3,000	£0	£0	£9,000	£4,000	£0	-£6,000	-£4,000	£0
Celf a Dylunio, AG, Astudiaethau Busnes, Drama ac Astudiaethau Awyr Agored	£3,000	£0	£0	£0	£0	£0	£3,000	£0	£0
Pynciau Sylfaenol									
Cyffredinol	£3,000	£0	£0	£0	£0	£0	£3,000	£0	£0
Arbenigedd Pwnc ¹⁴	£6,000	£0	£0	£6,000	£6,000	£6,000	£0	-£6,000	-£6,000

Ffynonellau: Gweler Atodiad A

- 4.3 Darperir cymelliadau ITE ariannol dros amser ar gyfer Cymru a Lloegr yn Ffigyrau A1 ac A1 yn Atodiad A. Mae hyn ond yn dangos y newidiadau dros amser ar gyfer pynciau bwrsariaeth uchel a chanolig oherwydd nad yw'r lefelau ar gyfer bwrsariaethau isel wedi newid llawer. Hefyd nid yw Atodiad A ond yn dangos y lefelau ar gyfer graddau dosbarth cyntaf mewn pynciau bwrsariaeth canolig yng Nghymru oherwydd nad yw dosbarthiadau gradd is yn gymwys ar gyfer bwrsariaethau yn y pynciau hyn.
- 4.4 Yng Nghymru mewn perthynas â newidiadau dros amser ers AY 2010/11:

¹² Mae dosbarth cyntaf yng Nghymru yn cynnwys cymwysterau lefel PhD a Meistr¹³ Mae dosbarth cyntaf yn Lloegr yn cynnwys PhD; mae 2:1 yn cynnwys cymwysterau lefel Meistr¹⁴ Gall arbenigedd pwnc sylfaenol gynnwys Mathemateg, Saesneg, Cymraeg neu Wyddoniaeth Craidd yng Nghymru, ond dim ond Mathemateg yn Lloegr

- Mae lefelau cymelliadau ariannol wedi aros yn gymharol sefydlog yn ystod y tair blynedd academaidd diwethaf, ac mae lefelau ar gyfer y rhai sydd yn cael cymwysterau gradd dosbarth cyntaf yn ddigyfnewid ar gyfer y pedair blynedd diwethaf.
- Mae uchafswm lefel y cymhelliant ariannol, sef £20,000 wedi aros yn ddigyfnewid ers AY 2014/15 er bod nifer y pynciau sydd wedi cymhwyso ar gyfer y dyfarniad uchaf yma wedi cynyddu.
- Yn ystod AY 2012/13 roedd lefel y cymhelliant ariannol yn ystyried cymhwyster gradd hyfforddeion am y tro cyntaf, ac yn AY 2018/19 ystyriwyd cymwysterau ôl-radd am y tro cyntaf.

4.5 O'i gymharu, mae dadansoddiad o gymelliadau ITE ariannol ar gyfer astudiaethau TAR ôl-radd ers AY 2010/2011 yn Lloegr yn dangos bod:


- Lefelau cymelliadau ariannol wedi amrywio'n llawer mwy dros amser. Er bod yna wahaniaethau mawr yn ôl dosbarthiad gradd yn ystod AY 2012/13 ac yn fuan wedyn, mae'r bylchau yma wedi cau dros amser ar gyfer pynciau blaenoriaethol.
- Roedd uchafswm lefel y cymhelliant ariannol ar ei uchaf yn ystod AY 2016/17 a 2017/18 (sef £30,000 ar gyfer Ffiseg) ond ers hynny mae wedi gostwng i £26,000
- Ers AY 2011/12 nid oes unrhyw gymhelliant wedi bod ar gael ar gyfer hyfforddeion sydd â chymhwyster gradd ail ddosbarth is mewn pynciau gaiff ei categoreiddio fel rhai sydd yn derbyn bwrsariaethau isel (ac eithrio cerddoriaeth yn ystod AY 2015/16).

4.6 Mae Ffigwr 4.1 yn nodi'r gwahaniaethau mewn cymhwysedd am fwrsariaethau rhwng Cymru a Lloegr yn ystod y cyfnod o naw mlynedd rhwng AY 2010/11 a 2018/19 yn ôl pwnc a dosbarthiad gradd. Mae'n dangos:


- Bu dargyfeirio cynyddol o ran cymhwysedd i dderbyn bwrsariaeth rhwng Cymru a Lloegr yn ystod y cyfnod o naw mlynedd.
- Mae'r gwahaniaeth yn fwyaf amlwg yn achos hyfforddeion sydd â graddau ail ddosbarth uwch ac is. Mae hynny'n wir oherwydd y cynnydd sylweddol mewn bwrsariaethau gaiff eu cynnig yn Lloegr ar gyfer dosbarthiadau gradd isel mewn pynciau blaenoriaethol.
- Mae gwahaniaethau yn llai amlwg yn achos hyfforddeion sydd â gradd dosbarth cyntaf mewn pynciau blaenoriaethol.

Ffigwr 4.1 - Gwahaniaethau mewn cymhwysedd am fwrsariaeth rhwng Cymru a Lloegr dros amser, yn ôl pwnc a dosbarthiad gradd


a) Dosbarth cyntaf



b) Ail ddosbarth uwch



c) Ail ddosbarth is



4.7 O ran gwariant ar fwrsariaethau yng Nghymru, mae data a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn dangos bod cyfanswm o £2.870 miliwn wedi cael ei ddyfarnu i 286 o hyfforddeion ITE yn ystod AY 2016/17. O ystyried bod 955 o fyfyrwyr ar gyrsiau ôl-radd ITE yn ystod 2016/17 byddai hynny yn cyfateb i tua 30 y cant o'r holl hyfforddeion oedd yn derbyn bwrsariaeth ariannol. Erbyn AY 2017/18 roedd gwariant Llywodraeth Cymru ar fwrsariaethau ITE wedi gostwng i £1.873 miliwn, er bod nifer yr hyfforddeion oedd yn derbyn cymorth wedi cynyddu i 292 o fyfyrwyr. Ym Mawrth 2019 ar gyfer AY 2018/19 hyd yma, roedd cyfanswm o £1.245 miliwn wedi cael ei ddyfarnu i 277 o fyfyrwyr.

4.8 Mae'r tueddiadau canlynol yn cael eu harsylwi mewn perthynas â gwariant ar fwrsariaethau yng Nghymru:

- Myfyrwyr TAR cynradd oedd y nifer mwyaf o dderbynyddion bwrsariaeth yn flynyddol yn y ystod y tair blynedd diwethaf (sef tua chwarter y holl hyfforddeion TAR ITE) ond maen hynny yn cyfateb i tua un rhan o ddeg o'r gwariant blynyddol ar fwrsariaethau
- Mewn perthynas â phynciau uwchradd, Mathemateg, ac yna Cemeg oedd yn gysylltiedig â'r nifer mwyaf o hyfforddeion sydd yn derbyn bwrsariaeth ariannol yn ystod y tair blynedd academiaidd olaf. Mae tua 50 o hyfforddeion mathemateg yn derbyn bwrsariaeth ariannol yn flynyddol, er bod gwerth y bwrsariaethau a ddyfernir ar gyfer y pwnc yma wedi amrywio'n sylweddol yn flynyddol (e.e. yn ystod 2017/18 roedd gwariant ar fwrsariaethau Mathemateg yn cyfateb i dros hanner yr holl wariant, ond yn ystod 2019/20 mae'r gwariant disgwylidig presennol yn tua chwarter y gyllideb)

- Gostyngodd y fwrsariaeth ariannol gyfartalog am bob hyfforddai o £7,297 yn ystod AY 2016/17 i £6,412 yn ystod AY 2017/18. Mae data cychwynnol ar gyfer AY 2018/19 yn awgrymu bod gwerth bwrsariaeth gyfartalog wedi gostwng mwy eto i lai na £5,000.

4.9 Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn adrodd y cynlluniwyd i wariant ar fwrsariaethau ITE yn Lloegr fod yn £167m yn 2016/17. Mae hynny yn cynrychioli tua £8,000 am bob hyfforddai mewn pynciau sydd yn gymwys i dderbyn bwrsariaeth. Mae yna reswm da i gredu bod y dyfarniad cyfartalog am bob derbynnydd bwrsariaeth yn debygol o fod yn hyd yn oed uwch na hynny oherwydd bod nifer o hyfforddeion gyda dosbarthiadau graddau isel yn anghymwys i gael bwrsariaeth. Rydym hefyd yn amau y bydd y dyfarniad cyfartalog am bob hyfforddai a derbynnydd bwrsariaeth wedi codi ers 2016/17 o ganlyniad i gynnydd mewn lefelau bwrsariaeth yn 2017/18 a 2018/19. Felly mae dyfarniadau ITE cyfartalog yn Lloegr yn sylweddol uwch nag yng Nghymru.

Bwrsariaethau ar gyfer astudiaethau cyfrwng Cymraeg

- 4.10 Yn ogystal â'r bwrsariaethau ariannol sydd ar gael i hyfforddeion ITE, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu grantiau i hyfforddeion sydd yn astudio cyrsiau uwchradd ôl-radd drwy gyfrwng y Gymraeg, er mwyn cymhwyso i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac sydd angen cymorth ieithyddol ychwanegol. Mae hyfforddeion cymwys yn derbyn grant ariannol yn ogystal â chymorth a mentora.
- 4.11 Cyflwynwyd Cynllun Atodiad Cymhelliant Cyfrwng Cymraeg (ACCC) gyntaf yn 1988, ar gyfradd o £1,200 i ddechrau ond cynyddodd ar ôl hynny. Am nifer o flynyddoedd £1,600 oedd y cymhelliant ariannol ar gyfer y rhan fwyaf o bynciau, gan gynyddu i £2,000 ar gyfer y rhai oedd yn hyfforddi i ddysgu Mathemateg, Ffiseg a Chemeg.
- 4.12 Roedd nifer yr hyfforddeion sydd yn cyfranogi yng nghynllun ACCC wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diweddar. Adroddwyd bod 71 o hyfforddeion wedi cofrestru gyda'r cynllun yn ystod AY 2016/17 o'i gymharu â 90 yn ystod AY 2015/16¹⁵.
- 4.13 Canfu gwerthusiad diweddar o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ITE mai dim ond ychydig iawn o'r hyfforddeion ac athrawon newydd a gyfrannodd at y gwerthusiad oedd ymwybodol o'r cymelliadau ariannol oedd ar gael drwy'r cynllun cyn cofrestru ar y cwrs a bod angen gwella'r dull o'i hyrwyddo. Canfu'r gwerthusiad mai ychydig o ddylanwad yr oedd ei argaeledd yn ei gael ar benderfyniadau hyfforddeion i gofrestru ar gwrs ITE cyfrwng

¹⁵ Llywodraeth Cymru (2018) Gwerthuso darpariaeth Cyfrwng Cymraeg mewn Addysg Gychwynnol i Athrawon t.28 <https://gov.wales/evaluation-welsh-medium-provision-initial-teacher-education-0>

Cymraeg. Roedd yn 'chwarae mwy o rôl o ran sicrhau bod hyfforddeion yn parhau gyda'u cwrs cyfrwng Cymraeg'¹⁶ yng ngoleuni'r llwyth gwaith ychwanegol sydd yn gysylltiedig â'r cwrs.

- 4.14 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei fwriad i wella cymhelliant ariannol cyfrwng Cymraeg ar gyfer y flwyddyn academaidd 2018/19 ymlaen. Mae cymhelliant ariannol ACCC o £2,000 ar gael i bob cyfranogwr ond hefyd, bydd Cynllun Cymhelliant Iaith Athrawon Yfory yn sicrhau y bydd cymhelliant ariannol arall o £3,000 ar gael i unigolion wrth iddynt gwblhau'r cwrs a symud ymlaen i addysgu. Bydd y taliad cyntaf o £500 i unigolion cymwys yn cael ei dalu ar ôl cwblhau rhaglen uwchradd ITE ôl-radd gymwys yng Nghymru fydd yn arwain at SAC. Bydd y rhan fwyaf o'r taliad, £2,500, yn daladwy ar ôl llwyddo i gwblhau cyfnod cynefino mewn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog a gynhelir, neu ddysgu Cymraeg mewn unrhyw sefydliad uwchradd a gynhelir yng Nghymru.
- 4.15 I grynhoi, gall cyfranogwyr ITE sydd yn astudio cyrsiau ôl-radd drwy gyfrwng y Gymraeg gael mynediad at £5,000 yn ychwanegol at eu lwfans bwrsariaeth ariannol ITE: a mynediad at hanner hynny yn ystod y cwrs ôl-radd a hanner ar ôl cwblhau cyfnod anwytho mewn ysgol.

¹⁶ Ibid., p.66

5. Hyfforddeion ITE a'r gweithlu addysgu

- 5.1 Mae'r bennod yma yn ystyried y tueddiadau o ran nifer a phroffil hyfforddeion ITE dros amser yng Nghymru a Lloegr yn ogystal â data mewn perthynas â'r gweithlu addysgu.

Niferoedd hyfforddeion ITE yng Nghymru

- 5.2 Mae nifer yr hyfforddeion ITE ôl-radd sydd yn astudio yng Nghymru wedi gostwng yn ystod y cyfnod o saith mlynedd rhwng AY 2010/11 a 2016/17, o 1,370 i 955¹⁷ (gweler Ffigwr A3 yn Atodiad A). Nifer yr hyfforddeion ITE ôl-radd sydd yn astudio i addysgu mewn ysgolion uwchradd sydd yn gysylltiedig â'r rhan fwyaf o'r gostyngiad yma, o 940 yn ystod AY 2010/11 i 530 yn AY 2016/17. Hefyd gwelwyd gostyngiad cyffelyb yn nifer yr hyfforddeion ITE uwchradd sydd yn dilyn graddau eraill yn ystod yr un cyfnod, o 75 yn AY 2010/11 i 20 erbyn 2016/17. Felly mae cyfanswm yr hyfforddeion ITE uwchradd wedi gostwng bron i 50 y cant, o 1,105 yn AY 2010/11 i 550 erbyn AY 2016/17.
- 5.3 Mae nifer yr hyfforddeion ITE ôl-radd sydd yn astudio i addysgu mewn ysgolion cynradd wedi aros yn gymharol ddigymffwrdd yn gyffredinol rhwng AY 2010/11 a 2016/17 gyda 425 o hyfforddeion yn dilyn y llwybr yma i fyd addysg yn AY 2016/17. Bu gostyngiad bach yn nifer yr hyfforddeion cynradd ITE sydd yn dilyn llwybrau gradd eraill yn ystod yr un cyfnod. Yn gyffredinol, roedd 695 o hyfforddeion cynradd yn dilyn cyrsiau ITE yn ystod 2016/17.
- 5.4 Mewn perthynas â'r targedau a bennwyd ar gyfer athrawon newydd dan hyfforddiant, mae Bwletin Ystadegol¹⁸ Addysg Gychwynnol i Athrawon Cymru 2016/17 Llywodraeth Cymru yn adrodd mai'r targed cymeriant ar gyfer cyrsiau uwchradd yn 2016/17 oedd 871 a bod 'nifer yr athrawon uwchradd newydd dan hyfforddiant wedi bod draean yn brin o'r targed yn 2016/17. Arhosodd nifer yr hyfforddeion cynradd ychydig yn is na'r targed am yr ail flwyddyn'.

Niferoedd hyfforddeion ITE yn Lloegr

- 5.5 Mae nifer yr hyfforddeion uwchradd yn Lloegr wedi gostwng o tua 20,000 yn y 2000au hwyr i tua 15,500 erbyn AY 2018/19, gostyngiad o tua 20 y cant o'i gymharu ag AY 2010/11 (gweler Ffigwr A4 yn Atodiad A). Roedd bron yr holl hyfforddeion yma yn dilyn cyrsiau ôl-radd, ac roedd dwy ran o dair ohonynt yn dilyn cyrsiau darparwyr mewn prifysgolion, colegau neu SCITT.

¹⁷ Cofnod Myfyrwyr Addysg Uwch, Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (Mai 2018). Bydd data ar gyfer 2017/18 yn cael ei gyhoeddi ym Mai 2019.

¹⁸ Llywodraeth Cymru (10 Mai 2018) Bwletin Ystadegol Addysg Gychwynnol i Athrawon Cymru, 2016/17

- 5.6 Yn gyffredinol rhagorwyd ar dargedau yn achos hyfforddeion uwchradd yn Lloegr hyd at AY 2012/13, ond ers hynny methwyd â chyrraedd y targedau yma bobl blwyddyn. Roedd niferoedd hyfforddeion uwchradd yn 83 y cant o'r niferoedd targed yn AY 2018/19.
- 5.7 Fel yng Nghymru, mae niferoedd hyfforddeion cynradd yn Lloegr wedi aros yn fwy sefydlog yn ystod y deng mlynedd diwethaf. Cododd y niferoedd o 17,600 yn AY 2008/09 i gyrraedd brig o dros 20,000 yn AY 2012/13, ond ers hynny maent wedi gostwng i 17,500 erbyn AY 2018/19. Yn gyffredinol mae'r niferoedd yma wedi cyrraedd y targedau cyffredinol am y deng mlynedd diwethaf.
- 5.8 Roedd ychydig mwy na 70 y cant o athrawon cynradd dan hyfforddiant yn dilyn cyrsiau ôl-radd yn AY 2018/19, a'r gweddill yn dilyn cyrsiau israddedig.

Hyfforddeion ITE yn ôl dosbarthiadau gradd

- 5.9 Bu cynnydd dros amser yng nghyfran y newydd-ddyfodiaid i hyfforddiant athrawon ôl-radd yn Lloegr sydd â dosbarthiadau gradd uchel (gweler Ffigwr A5 yn Atodiad A). Ond, mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o'r twf wedi digwydd cyn cyflwyno bwrsariaethau mwy hael yn 2012/13. Rhwng 2009/10 a 2012/13 cododd y gyfran oedd â 2:1 neu uwch o 61 y cant i 71 y cant, tra bod y gyfran â gradd dosbarth cyntaf wedi codi o 10 y cant i 14 y cant yn ystod yr un cyfnod. Ers hynny, mae'r gyfran sydd â dosbarthiadau gradd uchel wedi parhau i godi, ond yn arafach. Erbyn 2018/19, roedd gan tua 74 y cant 2:1 neu uwch ac roedd gan tua 19 y cant radd dosbarth cyntaf.
- 5.10 Nid yw data dosbarthiadau gradd cymharol ar gyfer hyfforddeion ôl-radd yng Nghymru ar gael.

Niferoedd hyfforddeion ITE yn ôl pwnc

- 5.11 Mae dadansoddiad o hyfforddeion uwchradd yn ôl pwnc yng Nghymru rhwng AY 2010/11 a 2016/17 yn dangos gostyngiad cyffredinol yn niferoedd yr hyfforddeion ym mhob pwnc yn ystod y cyfnod yma (gweler Ffigwr A6 yn Atodiad A). Er y dylid cymryd peth gofal o ystyried y niferoedd isel ar gyfer rhai pynciau, mae'n werth dwyn sylw at y cynnydd yn niferoedd yr hyfforddeion Mathemateg ac Ieithoedd Modern rhwng AY 2011/2012 a 2012/13, oedd yn cyd-daro â chynnydd mawr yng ngwerth y fwrsariaeth oedd ar gael ar gyfer hyfforddeion a gradd dosbarth cyntaf a chynnydd bach ar gyfer rhai â gradd 2:1 (ond gostyngiad i'r rhai â gradd 2:2). Ond, yn achos pynciau eraill (e.e. Ffiseg a Chemeg) bu naill ai gostyngiad neu ddim newid yn y niferoedd er bod cynnydd cyffelyb yn cael ei roi i hyfforddeion â graddau dosbarth cyntaf a 2:1.

- 5.12 Yn Lloegr drwyddi draw mae yna wahaniaethau amlwg ar draws y pynciau wrth ddadansoddi nifer yr hyfforddeion ôl-radd uwchradd dros gyfnod o amser (gweler Ffigwr A7 yn Atodiad A).
- 5.13 Yn gyffredinol bu gostyngiad cyson dros gyfnod o amser mewn pynciau yn y grŵp bwrsariaeth uchel. Bu gostyngiad o bron i draean yn achos hyfforddeion mathemateg rhwng ei bwynt uchaf yn AY 2009/10 ac AY 2018/19, tra bu gostyngiad o tua 20 y cant ymysg hyfforddeion ieithoedd yn ystod yr un cyfnod. Cododd niferoedd hyfforddeion ffiseg a chemeg ychydig rhwng AY 2009/10 ac AY 2012/13, ond ers hynny maent wedi gostwng eto. Hefyd mae niferoedd wedi bod yn ymbellhau o'r targedau dros gyfnod o amser, gyda hyfforddeion yn cynrychioli 71 y cant o'r targed ar gyfer mathemateg yn AY 2018/19, 79 y cant ar gyfer Cemeg, 47 y cant ar gyfer Ffiseg ac 88 y cant ar gyfer Ieithoedd Modern. Yn y pedwar pwnc, nid oes dim tystiolaeth sydd yn awgrymu unrhyw hwb mawr i niferoedd hyfforddeion ar ôl cyflwyno bwrsariaethau mawr a bwrsariaethau wedi eu gwahaniaethu yn AY 2012/13.
- 5.14 Mewn pynciau eraill mae yna hyd yn oed fwy o heterogenedd. Gostyngodd niferoedd yr hyfforddeion Saesneg yn gyson hyd at AY 2018/19¹⁹, tra bod niferoedd hyfforddeion Bioleg wedi gostwng hyd at 2013/14 cyn cynyddu ychydig yn raddol. Yna bu cynnydd dramatig iawn yn y ddau bwnc yn AY 2018/19 gyda chynnydd o 40 y cant yn achos hyfforddeion Saesneg, a hyfforddeion Bioleg bron yn dyblu mewn un flwyddyn. Cyrhaeddwyd neu ragorwyd ar dargedau yn y ddau bwnc yn gyson dros gyfnod o amser, gyda niferoedd yn dros 50 y cant yn uwch na'r targed ar gyfer Bioleg yn AY 2018/19. Bu cynnydd mawr iawn mewn bwrsariaethau ar gyfer y ddau bwnc yn ystod yr un flwyddyn, yn arbennig i rai â dosbarthiadau gradd isel.
- 5.15 Bu gostyngiadau cyson hefyd mewn hyfforddeion Daearyddiaeth hyd at AY 2015/16, cyn codi eto ar ôl cynyddu bwrsariaethau yn sylweddol. Er hynny, mae'r niferoedd yn parhau ar 90 y cant o'r targed yn unig.
- 5.16 Rydym yn grwpio technoleg, busnes a chyfrifiadura gyda'i gilydd er mwyn sicrhau cysondeb dros gyfnod o amser. Bu gostyngiadau mawr iawn yn y grŵp yma rhwng AY 2009/10 ac AY 2013/14, gyda niferoedd yn gostwng o 3,000 i 1,000. Mae niferoedd wedi aros yn gymharol sefydlog ers hynny. Ond erbyn hyn mae hyfforddeion Dylunio a Thechnoleg wedi gostwng i tua 25 y cant o'r targed cyffredinol.
- 5.17 Bu gostyngiad cyson mewn pynciau eraill dros gyfnod o amser ac yn gyffredinol maent yn is na'r targedau recriwtio (tua 70 y cant o'r hyfforddeion targed a recriwtiwyd ar gyfer Celf a

¹⁹Gellir egluro'r gostyngiad i ryw raddau o ganlyniad i symud hyfforddeion Drama o'r categori Saesneg yn 2012/13.

Dylunio ac Addysg Grefyddol yn AY 2018/19. recriwtiwyd 60 y cant ar gyfer Cerddoriaeth, er y rhagorwyd ar y targedau ar gyfer Addysg Gorfforol. Yr unig eithriad yw Hanes, ble mae'r niferoedd wedi codi dros gyfnod o amser ac yn parhau i fod yn agos i'r lefelau targed.

Llifoedd dros y ffin

- 5.18 Mae dadansoddiad o ddata ar gyfer myfyrwyr sydd yn hanu o Gymru sydd yn dilyn cyrsiau ôl-radd neu gysiau ITE gradd eraill yn y DU yn ystod y cyfnod o saith mlynedd rhwng AY 2010/11 a 2016/17 yn dangos bod y gyfran sydd yn dewis astudio eu cyrsiau yn Lloegr wedi codi o 23 y cant i 34 y cant. Mae cyfran yr hyfforddeion uwchradd sydd yn gwneud hynny wedi dilyn patrwm cyffelyb, gyda 35 y cant o hyfforddeion cohort blwyddyn gyntaf sydd yn hanu o Gymru yn dilyn cyrsiau ITE uwchradd yn Lloegr (fel y dangosir hynny yn Ffigwr A8 yn Atodiad A). Mewn termau absoliwt yn ystod AY 2016/17, roedd 235 o'r 680 o fyfyrwyr ar gysiau ITE uwchradd oedd yn hanu o Gymru yn astudio yn Lloegr.
- 5.19 Mae'n rhaid cymryd peth gofal wrth ddadansoddi'r llif o astudio dros y ffin ar gyfer AY 2015/16 a 2016/17 yn ôl pynciau uwchradd o ystyried bod niferoedd yr hyfforddeion yn eithaf bychan yn achos rhai pynciau. Yn ystod AY 2015/16 a 2016/17 astudiodd cyfran uwch o hyfforddeion Ffiseg (50 y cant h.y. 30 allan o 60 o hyfforddeion), mathemateg (39 y cant h.y. 70 allan o 180 o hyfforddeion) ac leithoedd Tramor Modern (44 y cant h.y. 35 allan o 80 o hyfforddeion) oedd yn hanu o Gymru yn Lloegr. Er bod Busnes hefyd yn uchel (ar 40 y cant) mae'n werth nodi bod y gyfran yn seiliedig ar gyfanswm o 25 o hyfforddeion a ddilynodd y cwrs yma yn ystod y cyfnod o ddwy flynedd yng Nghymru neu yn Lloegr. Y pynciau gyda'r gyfran isaf oedd yn astudio yn Lloegr yn ystod AY 2015/16 a 2016/17 oedd Dylunio a Thechnoleg, Technoleg Gwybodaeth, Celf a Saesneg. Ym mhob un o'r pynciau yma, roedd chwarter y myfyrwyr oedd yn hanu o Gymru, neu lai, yn astudio yn Lloegr. Byddai'n werth ystyried y data mwyaf diweddar ar gyfer AY 2017/18 pan fydd ar gael ym Mai 2019 er mwyn deall a yw'r dargyfeirio cynyddol mewn lefelau bwrsariaeth dros gyfnod o amser wedi effeithio ar y cyfrannau sydd yn dewis astudio pynciau penodol yn Lloegr.
- 5.20 Mae dadansoddiad cyffelyb o lif dros y ffin yn ôl rhanbarthau Cymru yn dangos bod myfyrwyr sydd yn hanu o Ogledd Cymru yn llawer mwy tebygol o ddilyn eu cwrs ITE yn Lloegr (ar 50 y cant yn ystod 2016/17) ac mae'r gyfran yma yn cynyddu i 57 y cant wrth ystyried y rhai sydd yn astudio cwrs uwchradd (fel y dangosir hynny yn Ffigwr A9 yn Atodiad A). Myfyrwyr sydd

yn hanu o ganolbarth a gorllewin Cymru sydd leiaf tebygol (ar 23 y cant yn ystod 2016/17) o ddilyn eu cwrs ITE yn Lloegr.

- 5.21 Wrth ystyried llif hyfforddeion ITE o du allan i Gymru sydd yn dilyn eu cyrsiau mewn sefydliadau yng Nghymru, mae data HESA yn dangos y bu gostyngiad parhaus yn y niferoedd sydd yn gwneud hynny ers 2010/11 (fel y dangosir hynny yn Ffigwr A10 yn Atodiad A). Erbyn 2016/17, roedd 11 y cant o'r hyfforddeion ITE blwyddyn gyntaf yng Nghymru yn fyfyrwyr nad oeddent yn hanu o Gymru o'i gymharu â 20 y cant yn ystod 2010/11. Wrth ystyried hyfforddeion uwchradd, yn 2016/17 roedd 13 y cant o'r hyfforddeion ITE blwyddyn gyntaf yng Nghymru yn fyfyrwyr nad oeddent yn hanu o Gymru o'i gymharu â 23 y cant yn ystod 2010/11.

Cymwysyddion a chyrchfannau

- 5.22 Mae data diweddaraf HESA ar gyfer AY 2016/17 yn dangos bod 1,465 o hyfforddeion ITE o Gymru wedi cymhwyso yn ystod y flwyddyn honno. Cymhwysodd dwy ran o dair (1,010) o gyrsiau ITE yng Nghymru a thraean (450) o Loegr. O blith y rhain, cymhwysodd 630 i addysgu mewn sefydliad uwchradd, gyda dwy ran o dair ohonynt yn gwneud hynny ar gwrs yng Nghymru, a thraean (200) ar gwrs yn Lloegr (fel y dangosir hynny yn Ffigwr A11 yn Atodiad A). Dros gyfnod o amser, mae cyfran y cymwysyddion o Gymru ar gyrsiau yn Lloegr wedi cynyddu yn unol â nifer yr hyfforddeion sydd yn penderfynu astudio yn Lloegr.
- 5.23 Mae data Arolwg Cyrchfan Gadawyr HESA yn dangos bod cyfran yr hyfforddeion ITE sydd yn cwblhau eu cwrs yng Nghymru sydd yn aros yng Nghymru wedi cynyddu'n flynyddol rhwng 2011/12 ac 2016/17 o 72 y cant i 85 y cant. Gellir gweld patrwm cyffelyb yn achos myfyrwyr cyrsiau ITE uwchradd yn ystod yr un cyfnod (fel y dangosir hynny yn Ffigwr A12 yn Atodiad A).

Swyddi Gwag, ceisiadau a phenodiadau

- 5.24 Mae data Cyfrifiad Ysgol Blynyddol Lefel Disgyblion (PLASC) diweddaraf, ar gyfer cyfnod lonawr i Ragfyr 2017, yn dangos bod cyfanswm o 1,811 o swyddi dysgu wedi cael eu hysbysebu yn ystod y flwyddyn yng Nghymru. O blith y rhain, roedd 963 yn swyddi uwchradd a 848 yn swyddi cynradd. Er eu bod yn amrywio o un flwyddyn i'r llall, mae cyfanswm nifer y swyddi a hysbysebwyd wedi codi ers 2007, ac mae'r nifer a hysbysebwyd yn y sector uwchradd wedi cynyddu'n fwy cyson a graddol na'r sector cynradd. Fel y dangosir yn Ffigwr A13 yn Atodiad A, mae nifer y swyddi y penodwyd iddynt yn dilyn tuedd gyffelyb, er y bu cynnydd bychan yn y gwahaniaeth rhwng swyddi a hysbysebwyd a swyddi a lanwyd yn ystod

y tair blynedd olaf. Ar gyfer 2017 penodwyd i 1,658 o swyddi, ac roedd 879 o'r rhai hynny yn benodiadau uwchradd a 779 yn benodiadau cynradd.

- 5.25 Y pynciau uwchradd oedd yn gysylltiedig â'r nifer mwyaf o swyddi a hysbysebwyd yn ystod 2017 oedd Mathemateg (154 wedi eu hysbysebu), ac yna Saesneg (143) a Gwyddoniaeth (129) - er pe ychwanegid nifer y swyddi Cemeg (14), Ffiseg (12) a Bioleg (14) unigol at hynny, byddai'r cyfanswm hwnnw yn 169.
- 5.26 Mae Tabl 5.1 yn dangos nifer yr ymgeiswyr a dderbyniwyd ar gyfer pob swydd a hysbysebwyd yn ystod cyfnod o dair blynedd o 2015 i 2017, wedi eu graddio o'r pynciau uwchradd uchaf i isaf. Mae'n dangos mai Addysg Gorfforol, Hanes a Chelf yw'r tri phwnc sydd â'r gymhareb uchaf o geisiadau am bob swydd tra mai Cymraeg iaith gyntaf, Cemeg a Ffiseg a dderbyniodd y nifer isaf o geisiadau am bob swydd ar gyfartaledd.

Tabl 5.1: Ceisiadau a dderbyniwyd am bob swydd a hysbysebwyd yng Nghymru dros gyfnod o dair blynedd (2015, 2016 a 2017)

	Cyfanswm y swyddi a hysbysebwyd	Cyfanswm y ceisiadau a dderbyniwyd	Nifer cyfartalog y ceisiadau am bob swydd a hysbysebwyd
Addysg Gorfforol	115	1,720	15
Hanes	82	992	12
Celf	54	604	11
Addysg Grefyddol	96	984	10
Dylunio a Thechnoleg	113	881	8
Saesneg	417	3,246	8
Cerddoriaeth	79	603	8
Gwyddoniaeth	323	2,351	7
Cymraeg Ail Iaith	133	878	7
Bioleg	40	262	7
Technoleg gwybodaeth	80	552	7
Mathemateg	426	2,815	7
Ieithoedd Tramor Modern	113	847	7
Cydlynedd SEN	24	132	6
Ffiseg	42	226	5
Cemeg	49	245	5
Cymraeg iaith Gyntaf	51	190	4
Arall/uwchradd anhysbys	364	4,018	72
Cyfanswm uwchradd	2,674	22,085	8
Cyfanswm cynradd	2,425	36,901	15
Cyfanswm	5,099	58,986	12

Ffynhonnell: AGGCC Llywodraeth Cymru

Cadw gweithlu addysgu mewn ysgolion

- 5.27 Er mwyn wynebu'r heriau a ddaw o ganlyniad i gynnydd yn y boblogaeth disgyblion yng Nghymru a Lloegr, bydd angen i lunwyr polisïau ac ysgolion sicrhau eu bod yn gallu cadw niferoedd digonol o athrawon.
- 5.28 Mae adroddiad Mewnwelediadau Data Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) 2018, a dynnwyd o gofrestr CGA ar 1 Mawrth 2018 yn adrodd bod cyfanswm o 35,576 o athrawon ysgol wedi eu cofrestru gyda GCA. Yn seiliedig ar y data yr adroddwyd arno yng Nghrynhoed Ystadegau CGA ar gyfer Mawrth 2017²⁰, bu gostyngiad o chwech y cant yn nifer yr athrawon cofrestredig rhwng 2013 a 2018.
- 5.29 Mae data CGA ar gyfer 2017 yn dangos bod 37.3 y cant o'r athrawon cofrestredig (13,501) yn perthyn i'r sector cynradd a bod 32.4 y cant yn perthyn i'r sector uwchradd (11,716). O blith y rhai sydd yn addysgu yn y sector uwchradd, mae pynciau Saesneg a Mathemateg yn cyfateb i ychydig dros 10 y cant o'r holl athrawon cofrestredig. Y meysydd pwnc mwyaf ar ôl hynny o ran niferoedd gweithlu yw Gwyddoniaeth, Cymraeg, Dylunio a Thechnoleg ac Addysg Gorfforol.
- 5.30 Yn flynyddol mae tua 700 i 800 o athrawon yn gadael y proffesiwn yn gynnar yng Nghymru, gyda rhwng 300 a 400 o'r rhain yn gadael y sector uwchradd. Mae data PLASC diweddar (Ionawr i Ragfyr 2017) yn adrodd bod 698 o athrawon wedi gadael y proffesiwn yn gynnar, gyda 364 yn gadael y sector cynradd a 334 yn gadael y sector uwchradd. Mae ymddeoliad cynnar yn gyfrifol am y gyfran fwyaf o adawyr cynnar. Ar draws y sector uwchradd, adroddwyd bod y nifer uchaf o adawyr cynnar yn gysylltiedig â Mathemateg, pynciau gwyddoniaeth a Saesneg (yn unol â phroffil y gweithlu yn ehangach).
- 5.31 Yn Lloegr roedd y gweithlu addysg yn ychydig mwy na 450,000 o athrawon llawn amser yn Nhachwedd 2017 yn ôl y Cyfrifiad Gweithlu Ysgolion²¹. Mae hynny yn cynrychioli lefel gyffelyb i'r hyn a welwyd yn ystod y deng mlynedd blaenorol. O'r cyfanswm yma, roedd tua 220,000 o athrawon yn gweithio mewn ysgolion meithrin neu gynradd a ariannwyd gan y wladwriaeth, a thua 200,000 mewn ysgolion uwchradd (roedd y gweddill yn gweithio mewn ysgolion arbennig neu'n cael eu cyflogi'n ganolog).
- 5.32 Yn 2017, gadawodd tua 43,000, neu un o bob deg athro, ysgolion a ariannwyd gan y wladwriaeth yn Lloegr. Gadawodd tua 16 y cant oor gadawyr yma oherwydd ymddeoliad,

²⁰Crynhoed Ystadegau Blynnyddol Cyngor y Gweithlu Addysg (Mawrth 2017) t.4

²¹ <https://www.gov.uk/government/collections/statistics-school-workforce>

gyda dros 80 y cant yn gadael am resymau eraill. Mae cyfraddau gadael hefyd wedi bod yn codi dros gyfnod o amser, o tua 8 y cant yn 2011 i 9 y cant yn 2017 yn achos athrawon cynradd, ac o tua 9 y cant i 10 y cant yn achos athrawon uwchradd.

- 5.33 Mae cyfraddau cadw athrawon yn arbennig o wael yn ystod y cyfnod gyrfa cynnar yn Lloegr, gyda dim ond tua 60 y cant o'r hyfforddeion yn addysgu mewn ysgol a ariennir gan y wladwriaeth bum mlynedd ar ôl hyfforddi²². Mae ffigyrau cadw gyrfa gynnar yn hyd yn oed yn waeth, ar 50 y cant, ym mhynciau Mathemateg, Gwyddorau ac Ieithoedd, ble mae yna brinder.

²² Allen, R., Belfield, C., Greaves, E., Sharp, C. and Walker, M. (2014), 'The costs and benefits of different initial teacher training routes', Sefydliad Astudiaethau Cyllid (IFS) Adroddiad R100 (<http://www.ifs.org.uk/publications/7435>)

6. Canfyddiadau gwaith maes

- 6.1 Bydd y bennod hon yn cyflwyno canfyddiadau gwaith maes gyda rhanddeiliaid allweddol, darparwyr ITE a myfyrwyr ITE presennol.

Niferoedd hyfforddeion ITE

- 6.2 Adroddodd darparwyr ITE yn ymgynghorwyd â nhw yng Nghymru eu bod wedi gweld gostyngiad parhaus yn nifer yr hyfforddeion ITE ôl-radd yn y sector uwchradd yn ystod y blynyddoedd diweddar. Adroddwyd bod nifer y myfyrwyr ôl-radd cynradd wedi aros yn gymharol sefydlog, a'u bod yn debyg i niferoedd y blynyddoedd blaenorol. Arsylwodd un darparwr ITE bod nifer yr hyfforddeion uwchradd ôl-radd yn eu sefydliad yn ystod AY 2018/19 yn tua chwarter yr hyn oedd rhyw bedair neu bum mlynedd cyn hynny, tra bod eraill wedi adrodd bod nifer eu hyfforddeion wedi gostwng tua 15 y cant, o 240 i 200.
- 6.3 Er bod rhai darparwyr ITE yng Nghymru yn awgrymu nad yw'r gostyngiad mewn niferoedd hyfforddeion wedi bod 'mor sylweddol yng Nghymru ag yw yn Lloegr', mae eraill yn credu ei fod wedi bod yn llawer mwy. Awgrymodd un darparwr yn Lloegr bod niferoedd eu hyfforddeion ôl-radd wedi 'sefydlogi' yn ddiweddar, tra bod un arall yn adrodd bod nifer yr holl hyfforddeion ITE wedi 'dyblu' yn ystod y pedair blynedd diwethaf, gyda niferoedd ITE ôl-radd wedi tyfu 60 y cant yn ystod yr un cyfnod. Priodolwyd y twf yn nifer yr hyfforddeion ITE mewn un darparwr yn Lloegr i ddwy ffactor: mae diddymu'r cap ar niferoedd myfyrwyr wedi golygu y gallai'r brifysgol bellach dderbyn mwy o hyfforddeion: yn hanesyddol roedd y brifysgol wedi gordanysgrifio ac nid oedd yn gallu derbyn yr holl ymgeiswyr. Yn ail, dyfarnwyd arolygiad 'eithriadol' i'r dyfarnwr gan OFSTED yn 2006 a thybiwyd bod hynny wedi cynyddu ei apêl i ddarpar fyfyrwyr.
- 6.4 Adroddodd yr holl ddarparwyr ITE (yng Nghymru a Lloegr) bod y pynciau sydd yn fwyaf heriol o ran recriwtio hyfforddeion wedi parhau i fod yn eithaf cyson yn ystod y blynyddoedd diweddar. Roedd darparwyr yn cyfeirio'n aml at bynciau Gwyddoniaeth, Mathemateg, Saesneg a Chymraeg (yng Nghymru) fel rhai heriol o ran recriwtio a chyrraedd targedau niferoedd hyfforddeion. Nododd darparwyr bod Ffiseg yn bwnc arbennig o anodd mewn perthynas â recriwtio hyfforddeion, ac roedd un yn nodi bod 'myfyrwyr o gwmpas eu pethau, maent yn gwybod bod Ffiseg yn bwnc anodd ei addysgu'.
- 6.5 Mewn rhai achosion gwelwyd hefyd bod leithoedd Tramor Modern yn gynyddol heriol mewn perthynas â recriwtio hyfforddeion, a phriodolwyd hynny yn rhannol i ostyngiad yn nifer y dysgwyr sydd yn astudio ieithoedd ar gyfer TGAU, Lefel A a gradd h.y. gostyngiad yn y

gronfa bosibl o hyfforddeion. Adroddodd darparwyr eraill bod y pwnc yn cael ei feddiannu'n gynyddol gan swyddi rhan amser nad oeddent yn apelgar i ddarpar hyfforddeion. Roedd cerddoriaeth yn bwnc arall a amlygwyd gan un darparwr ble roeddent wedi gweld gostyngiad parhaus yn ystod yr wyth blynedd diwethaf, a phriodolwyd hynny i lai o flaenoriaeth yn cael ei roi i'r pwnc mewn ysgolion.

- 6.6 Adroddodd nifer o ddarparwyr ITE eu bod wedi gweld gostyngiadau 'byr dymor' yn nifer y hyfforddeion a recriwtiwyd ar gyfer pynciau penodol, a bod hynny yn cael ei adfer yn aml. Roedd y pynciau yma yn amrywio e.e. roedd un darparwr yn Lloegr wedi gweld gostyngiad diweddar yn niferoedd hyfforddeion Addysg Grefyddol, adroddodd darparwr o Gymru am ostyngiad diweddar mewn Dylunio a Thechnoleg a phynciau cysylltiedig â TGCh, tra bod darparwr arall o Gymru wedi adrodd am ostyngiad diweddar mewn Addysg Gorfforol.
- 6.7 Hefyd adroddwyd yn gyffredinol gan ddarparwyr ITE yng Nghymru bod pynciau Addysg Gorfforol a'r Dyniaethau, yn arbennig Hanes, yn haws nag eraill o ran recriwtio hyfforddeion a bod niferoedd wedi bod yn eithaf cadarnhaol yn ystod y blynyddoedd diweddar.
- 6.8 Roedd yna gonsensws cyffredinol bod lefelau bwrsariaethau ITE yng Nghymru wedi aros yn eithaf statig yn ystod y blynyddoedd diweddar, ond yn Lloegr cydnabuwyd bod y lefelau wedi newid yn fwy rheolaidd. O ganlyniad i hynny, roedd darparwyr yn Lloegr yn gallu gweld bod gwahaniaethau a newidiadau i lefelau bwrsariaeth ar gyfer rhai pynciau yn dylanwadu ar niferoedd recriwtio pynciau. Er enghraifft, yn ystod y cyfnod pan oedd y fwrsariaeth Cemeg yn fwy hael nag ar gyfer Bioleg, adroddwyd bod 'gostyngiad mewn Bioleg' wrth i raddedigion Bioleg ddewis dilyn cyrsiau ITE Cemeg. Yn ddiweddarach cysonwyd lefelau bwrsariaethau ar gyfer Cemeg a Bioleg, gyda'r niferoedd oedd yn cofrestru ar y cwrs ITE Bioleg gydag un darparwr yn Lloegr yn cael eu hadfer o ganlyniad i hynny.
- 6.9 Roedd yr ymagwedd mwy statig tuag at lefelau bwrsariaethau yng Nghymru yn achosi i rai o'r hyfforddeion a gyfwelwyd i gwestiynu amseroldeb a chywirdeb y data oedd yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru i hysbysu'r dull o flaenoriaethu bwrsariaethau ar gyfer pynciau, ac awgrymwyd bod angen i'r ymagwedd fod yn fwy ymatebol ac amserol. Mewn un achos adroddodd un hyfforddai TGCh, oedd yn derbyn y fwrsariaeth uchaf, bod yna brinder swyddi TGCh ar gael iddynt ymgeisio amdanynt yn ystod eu blwyddyn ITE.
- 6.10 Tybiwyd bod y gostyngiad mewn niferoedd ar gyrsiau ITE yn fras yn adlewyrchu'r patrwm ar draws y sector AU yn fwy cyffredinol yn nhermau recriwtio ôl-radd - mae materion ynghylch

cost astudio ar lefel ôl-radd a chronni dyled myfyrwyr yn golygu ei bod yn anoddach recriwtio graddedigion ifanc ar gyrsiau ITE.

Cymelliadau ITE

- 6.11 Roedd yna gonsensws eang bod bwrsariaethau ariannol yn chwarae rhan bwysig o ran recriwtio hyfforddeion ITE ôl-radd, ond bod ffactorau eraill (a drafodir isod) hefyd yn dylanwadu'n sylweddol ar allu darparwyr i recriwtio. Dadleuwyd yn aml na ddylid ystyried cymelliadau ITE ar ei ben ei hun. Gellir ystyried safbwyntiau am gymelliadau ITE yng nghydestun sail resymegol danategol yr ymagwedd yng Nghymru a sut maent yn cymharu â chymhelliannau yn Lloegr.
- 6.12 Mewn perthynas â'r dull a fabwysiadwyd yng Nghymru:
- Roedd yna awgrym cryf bod yna **ormod o ffocws ar wobrwyo'r rhai sydd â gradd dosbarth cyntaf a rhai â chymhwyster ôl-radd**. Roedd nifer o gyfranwyr yn dadlau nad 'yw meddu ar ddoethuriaeth yn gyfystyr â bod yn athro da' ac 'nid yw gwobrwyo rhywun â dosbarth cyntaf yn gweithio. Nid ydynt bob amser yn gwneud yr athrawon gorau.' Er hynny, roedd eraill - yn arbennig hyfforddeion oedd wedi dilyn cwrs ôl-radd neu oedd wedi derbyn gradd dosbarth cyntaf - yn dadlau bod cynnig cymhelliant ITE uwch am y cymwysterau hynny wedi bod yn ysgogiad pwysig iddynt eu caffael yn y lle cyntaf. O'i gymharu, awgrymwyd bod y broses o ddyfarnu bwrsariaethau yn Lloegr yn rhoi llai o ystyriaeth i ddosbarthiad gradd, ac roedd y cyfranwyr yma yn dadlau y byddai dull cyffelyb yn cael ei groesawu yng Nghymru. 'Mae'r meini prawf yn rhy gul [yng Nghymru]. [O'i gymharu, yn Lloegr] mae'n haws cael bwrsariaeth os oes gennych 2:1 neu 2:2', a 'phetai pawb yn cael rhywbeth, byddai'n llawer gwell...ond nid yw'n bodoli ar gyfer y rhai â 2:1 neu 2:2, sef y rhan helaeth o hyfforddeion'.
 - Hefyd roedd yna safbwynt cyffredin bod y cynllun cymelliadau bwrsariaeth fel ag y mae yn gymhleth ac yn heriol o ran ei gyfathrebu i ddarpar hyfforddeion, yn arbennig wrth ystyried yr angen i gynnwys cymelliadau ariannol cyfrwng Cymraeg ychwanegol a'r gostyngiad i ôl-raddedigion sy'n hanu o Gymru. Yn fras awgrymwyd y byddai **cynnig mwy safonol** ar gyfer yr holl hyfforddeion yn helpu o ran cyfathrebu neges gliriach. Wedi ei alinio â hynny, awgrymodd rhai cyfranwyr hefyd y byddai'n synhwyrol

cyflwyno'r cynnig 'yn agosach i'r tir canol... gwneud yr hyn sydd yn gweithio i'r rhan fwyaf o bobl'.

- Dadleuodd nifer o gyfranwyr **nad oedd bwrsariaethau lefel is o £3,000 yn ychwanegu llawer o werth**. Nodwyd bod bwrsariaethau lefel cynradd yn perthyn i'r categori yma: 'Rwyf yn cwestiynu'r £3,000, yn arbennig ar gyfer y cynradd...nid yw cymelliadau yn chwarae rhan, mae'n rhy fychan' a 'mae'r £3k yn fonws yn unig, nid yw'n wir ffactor dylanwadol'.
- Mewn perthynas â meysydd pwnc, teimlwyd yn gyffredinol y dylai'r bwrsariaethau ariannol barhau i ganolbwyntio ar y meysydd pwnc hynny ble mae yna **brinder gweithlu**. Wedi ei alinio â hynny, cwestiynodd nifer o gyfranwyr sail resymegol dyfarnu cymhelliant ar sail dosbarthiad gradd yn hytrach na phwnc gradd, yn arbennig o ystyried y gall hyfforddeion sydd â dosbarth cyntaf mewn un pwnc sicrhau bwrsariaeth lefel uchaf i ddysgu pwnc arall, tra bod y rhai â 2:1 yn yr un pwnc yn cael bwrsariaeth lefel is. Byddai'r cyfranwyr yma yn croesawu mwy o ffocws ar bwnc gradd fel rhan o ddyfarnu bwrsariaethau oherwydd credwyd bod y gwahaniaeth presennol mewn lefelau cymelliadau yn ôl pwnc yn ysgogi ymddygiad e.e. adroddodd un darparwr ITE bod myfyrwyr yn dewis astudio pwnc ITE megis Mathemateg neu Gemeg oedd yn wahanol i'r pwnc israddedig (megis Bioleg) oherwydd y gwahaniaeth mewn lefelau cymelliadau.

6.13 Adroddodd nifer o'r hyfforddeion a gyfwelwyd oedd derbyn lefelau uwch o fwrsariaethau nad oedd raid iddynt ddibynnu ar swyddi rhan amser i gynnal eu hincwm yn ystod eu hastudiaethau. Cynigiodd staff a gyfwelwyd beth tystiolaeth anecdotaidd bod derbynyddion bwrsariaethau uwch mewn gwell sefyllfa i gwblhau eu cyrsiau: cyfeiriwyd at rai enghreifftiau o rai derbynyddion bwrsariaethau lefel is yn gorfod gohirio eu hastudiaethau oherwydd nad oeddent yn gallu rhoi yr amser oedd ei angen i gwblhau'r cwrs mewn blwyddyn. Adroddodd darparwyr ITE eraill a gyfwelwyd bod hyfforddeion nad oeddent yn derbyn bwrsariaethau lefel uwch yn fwy tebygol o gael trafferthion gyda straen a phwysau ariannol na'u cymheiriaid. Roedd hwn yn bwynt a bwysleisiwyd gan hyfforddeion a staff darparwyr a gyfwelwyd oedd yn cydnabod bod y cwrs ôl-radd yn un caled ac yn achosi straen, a bod y rhai oedd yn gorfod gwneud gwaith rhan amser hefyd yn cael mwy o anhawster ymdopi: 'mae bwrsariaethau yn golygu'r gwahaniaeth rhwng gorfod gweithio a ddim yn gorfod gweithio'.

- 6.14 Hefyd, roedd hyfforddeion a gyfwelwyd yn awgrymu bod y gwahaniaethau presennol mewn lefelau bwrsariaethau yn ôl pwnc a chymhwyster blaenorol yn creu ‘rhaniad’ ymysg hyfforddeion. Tybiwyd bod hynny yn arbennig o wir yn achos hyfforddeion oedd wedi cael 2:1 yn eu pwnc gradd ac a oedd yn astudio’r un pwnc ar gyfer TAR, ond a oedd yn cael bwrsariaeth is na’u cymheiriaid oedd wedi cael dosbarth cyntaf, er bod hynny mewn pwnc gradd gwahanol.

Mae Jac yn dilyn cwrs TAT TGCh gyda darparwr ITE yng Nghymru. Cafodd radd dosbarth cyntaf mewn Astudiaethau Addysgol mewn sefydliad AU arall yng Nghymru. Ar ôl cyfnod byr yn gweithio mewn ysgol penderfynodd wneud cais ar gyfer cwrs TAR. Roedd yn llawn brwdfrydedd ar yr adeg i fod yn athro ac i allu cyfrannu i’w gymuned a helpu i wireddu potensial disgyblion dan anfantais mewn ardal difreintiedig yn y cymoedd. Nid oedd yn ymwybodol o argaeledd y fwrsariaeth pan wnaeth gais ar gyfer y cwrs, a dim ond ar ddechrau’r cwrs y daeth yn ymwybodol y byddai ganddo hawl i dderbyn bwrsariaeth o £20,000. Mae’n un o dri o hyfforddeion ICT yn y brifysgol ac mae gan y tri hawl i dderbyn y fwrsariaeth o £20,000, oherwydd bod y ddau arall wedi cael gradd dosbarth cyntaf mewn Gwyddoniaeth Gyfrifiadurol. Yn ystod ei amser ar y cwrs, dim ond un swydd addysgu TGCh sydd wedi cael ei hysbysebu. O ganlyniad i hynny roedd yn teimlo nad oedd ganddo unrhyw opsiwn ond gwneud cais am swyddi dysgu eraill ac mae wedi derbyn swydd mewn ysgol i bob oedran gyda chyfrifoldeb am ddisgyblion blwyddyn 6. Yn yr achos yma, roedd yr hyfforddai ei hun yn cwestiynu y gwerth yr oedd Llywodraeth Cymru yn ei gael o ariannu ei hyfforddiant, yn arbennig yng ngoleuni’r ffaith nad oedd yn ystyried ei fod yn cael unrhyw wybodaeth pwnc arbenigol gan y brifysgol yn absenoldeb tiwtor TGCh a bod yna brinder swyddi TGCh ar gael iddo ymgeisio amdanynt.

- 6.15 Cynigwyd nifer o arsylwadau cyffredin gan gyfweleion wrth gymharu lefelau bwrsariaeth yng Nghymru a Lloegr. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Roedd gan hyfforddeion, staff darparwyr a rhanddeiliaid a holwyd **lefel gymysg o ddealltwriaeth** am y lefelau a’r meini prawf mewn perthynas â bwrsariaethau oedd ar gael yn Lloegr, ac efallai nad yw hynny yn syndod o ystyried eu bod wedi bod yn destun newid rheolaidd yn ystod y blynyddoedd diweddar. Rhanddeiliaid oedd y rhai oedd leiaf ymwybodol o’r bwrsariaethau oedd ar gael yn Lloegr, er bod rhai aelodau staff darparwyr yn yr un sefyllfa. Er hynny, roedd yna ganfyddiad cyffredin bod

bwrsariaethau yn 'fwy ariannol hael' yn Lloegr nag yng Nghymru. Ond nid oedd y canfyddiadau yma yn gywir bob amser, ac roedd rhai yn amcangyfrif bod y lefel uwch oedd ar gael yn Lloegr yn tua '£28k'.

- Yn fras, roedd cyfweleion o'r farn bod **angen i Gymru fod ar yr un gwastad â Lloegr** o ran lefel y bwrsariaethau a gynigiwyd, ond cydnabuwyd yn eang y byddai hynny yn anodd o ystyried y cyfyngiadau ariannol yng Nghymru. Yn yr achosion hynny, roedd cyfranogwyr yn credu y dylai'r ffocws fod ar wneud 'y defnydd gorau o'r adnoddau' sydd ar gael i'r sector. Er hynny, awgrymwyd yn rheolaidd, yn absenoldeb cynnig mwy cydradd, y byddai darparwyr yng Nghymru yn parhau i gael anhawster denu'r ymgeiswyr hynny fyddai fwyaf ar eu colled yn ariannol drwy ddewis astudio yng Nghymru. Dywedodd un hyfforddai 'Dylai Cymru a Lloegr fod ar yr un gwastad, neu ni ddylai fod yn fawr o syndod bod pobl yn croesi'r bont i astudio'. Efallai mai'r unig eithriad a godwyd gan ddarparwyr ITE oedd yr hyfforddeion hynny oedd yn dilyn eu cyrsiau ITE drwy gyfrwng y Gymraeg, oherwydd bod y cymhelliant cyfrwng Cymraeg yn cyfrannu at gau y bwlch hwnnw yn achos y myfyrwyr hynny oedd eisoes yn derbyn y fwsariaeth lefel uchaf yng Nghymru.
- Roedd nifer o gyfranogwyr yn credu bod cael **yr un cynnig 'uchaf'** yng Nghymru a Lloegr yn arbennig o bwysig, oherwydd byddai hynny yn fuddiol o ran gwaith hyrwyddo a recriwtio. Nodwyd hefyd bod y canfyddiadau yn aml yn cael eu hysbysu gan lefelau bwrsariaethau uwch h.y. mae lefel uchaf is yn aml yn arwain at ganfyddiad bod cymorth ariannol yn gyffredinol is.
- Gan roi'r cyd-desun yn Lloegr i'r neilltu, roedd nifer o gyfranogwyr, yn cynnwys hyfforddeion, yn credu bod y fwsariaeth uchaf bresennol a gynigir yng Nghymru yn **ddigonol, hyd yn oed yn hael**, er mwyn galluogi i hyfforddeion fyw yn gyfforddus yn ystod eu blwyddyn o astudio. Arsylwodd rhai hyfforddeion eu bod wedi gallu ad-dalu gorddrafft myfyrwyr, prynu car a chynilo arian gan ddefnyddio'r lwfans bwrsariaeth uwch yn ystod eu blwyddyn ITE. Yn Lloegr, mynegwyd peth pryder am y ffaith bod y lwfans bwrsariaeth uwch yn uwch na chyflog cychwynnol athro. Mewn gwirionedd, cynigwyd peth tystiolaeth anecdotaidd oedd yn awgrymu bod y bwrsariaethau hael yn denu rhai hyfforddeion am y rhesymau anghywir h.y. rhai oedd yn cael eu denu gan y swm di-dreth fel ffordd o ad-dalu benthychiadau myfyrwyr ond nad oedd ganddynt unrhyw fwriad o fod yn athrawon cymwys yn yr hirdymor. Mewn perthynas â hynny,

adroddwyd bod y bwrsariaethau lefel uchaf yn fwy hael na chynlluniau hyfforddiant graddedigion eraill.

- Roedd darparwyr a gyfwelwyd yn Lloegr yn **croesawu rhoi llai o ffocws ar ddosbarthiad gradd** mewn perthynas â meini prawf bwrsariaethau o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Roedd yn dal yn wir bod chwarter yr hyfforddeion ITE gydag un darparwr wedi cael gradd dosbarth cyntaf tra bod gan rhwng chwarter a thraean gymhwyster Meistr neu Ddoethuriaeth.
- Roedd darparwyr a gyfwelwyd yn Lloegr o'r farn hefyd, er gwaethaf polisi Llywodraeth y DU i ddyfarnu bwrsariaethau lefel uwch i bynciau lle mae prinder, bod **'prinder o hyd' yn y pynciau hynny**, gan awgrymu mai effaith gyfyngedig oedd i'r polisi.

6.16 Canfu'r gwaith maes bod y gwahaniaethau mewn lefelau bwrsariaethau a meini prawf rhwng Cymru a Lloegr yn effeithio ar batrymau recriwtio. Arsylwodd darparwyr a gyfwelwyd yn Lloegr bod ymgeiswyr o Gymru yn holi am lefelau bwrsariaeth, a phan fo'r gwahaniaeth ar ei fwyaf, fel arfer yn achos rhai â 2:1 neu 2:2, maent yn fwy tebygol o roi sylw dyledus i leoliad eu hastudiaethau. Dywedodd un darparwr o'r fath: 'os ydych yn fyfyrwr o Gymru gyda 2:2 mewn Cemeg - yn Lloegr byddwch yn derbyn bwrsariaeth o £26k, yng Nghymru byddwch yn derbyn £6k. Does dim angen meddwl ddwywaith! Nid yw'n ddim syndod eu bod yn croesi'r ffin i astudio yma'. Roedd darparwyr yng Nghymru yn adleisio'r tueddiadau yma a dywedodd un cyfwelai: 'pan edrychwch ar y ffigyrau yma mae'n egluro pan ein bod yn cael trafferth recriwtio. Mae yna dri o bobl wedi dweud wrthyf na fyddant yn dod yma oherwydd y byddant yn cael mwy o arian yn Lloegr'.

6.17 Roedd profiadau ac adborth gan hyfforddeion unigol yn adleisio'r pwyntiau yma:

Roedd Angharad wedi cael gradd 2:1 mewn Saesneg mewn prifysgol yn Lloegr cyn penderfynu teithio a derbyniodd swydd addysgu Saesneg fel ail iaith mewn gwlad dramor. Ar ôl mwynhau'r gwaith yma, a gan ei bod yn dod o deulu o athrawon, penderfynodd ymgeisio am gwrs TAR yng Nghymru. Dylanwadwyd yn bennaf ar ei dewis o ddarparwr AU oherwydd ei fod yn agos i gartref y teulu. I ddechrau roedd wedi ystyried gweud cais ar gyfer cwrs TAR Saesneg neu Ddaearyddiaeth, ond penderfynodd y byddai'n ffafrio Daearyddiaeth. Dylanwadwyd yn rhannol ar eu phenderfyniad i wneud cais ar gyfer TAR mewn Daearyddiaeth oherwydd y fwsariaeth a gynigiwyd - ond roedd wedi camddeall y byddai ganddi hawl i gael bwrsariaeth ariannol o £25,000 ym mha bynnag wlad y byddai'n astudio. Nid oedd wedi sylweddoli bod lefel y cymorth yn wahanol rhwng Cymru a Lloegr a

dim ond ar ôl cael ei dderbyn ar y cwrs yng Nghymru y sylweddolodd hynny. Nid oedd yn dymuno risgio colli ei lle ar y cwrs drwy wrthod y cynnig a sicrhau lle drwy'r broses glirio. Roedd wedi derbyn swydd addysgu yn Llundain ar ôl ymgeisio am ddwy swydd yng Nghymru a dwy yn Lloegr.

Cafodd Anna radd dosbarth cyntaf mewn Bioleg ac mae'n derbyn £3,000 y flwyddyn i astudio cwrs ITE Bioleg gyda darparwr ITE yng Nghymru. Nid oedd wedi edrych ar lefelau'r bwrsariaethau na'r gwahaniaethau rhwng Cymru a Lloegr cyn cyflwyno ei chais, oherwydd ei bod eisiau byw adref tra ei bod yn astudio. Mae'n gwneud ychydig o waith fel tiwtor ddwy waith yr wythnos yn ychwanegol at ei hymrwymiaidau TAR er mwyn ennill arian. Roedd Anna yn ymwybodol iawn bod ei holl gyd-fyfyrwyr Cemeg a Ffiseg ar y cwrs yn derbyn llawer mwy o arian na hi. Roedd yn teimlo bod hynny yn annheg yn enwedig oherwydd y byddai'n ddisgwyliedig iddynt addysgu yr holl bynciau Gwyddoniaeth: 'rydym yn gwneud y cyfan beth bynnag'. Nawr mae'n sylweddoli y gallai fod wedi gwneud cais am Gemeg yn hytrach ac y byddai wedi derbyn gwell bwrsariaeth: 'Mewn gwirionedd dylem wneud cais ar gyfer TAR Gwyddoniaeth'. Roedd wedi derbyn swydd addysgu mewn ysgol gyfagos ar ôl iddi raddio - ond bydd yn dysgu Cemeg a Bioleg yno.

Beth sydd i gyfrif am y twf yn nifer yr hyfforddeion sydd yn hanu o Gymru sydd yn astudio mewn sefydliadau darparwyr yn Lloegr?

- 6.18 Mae'r dadansoddiad a gyflwynir yn Adran 5 yn dangos bod traean o hyfforddeion TAR uwchradd oedd yn hanu o Gymru wedi cofrestru ar gyrsiau yn Lloegr yn 2016/17²³ a bod hynny wedi codi o tua chwarter yn y flwyddyn flaenorol. Roedd darparwyr yng Nghymru yn arsylwi bod y duedd honno wedi parhau yn ystod y ddwy flynedd academaidd (ers i ddata cyhoeddus fod ar gael). Yn yr un modd, roedd un darparwr o Loegr yn amcangyfrif bod tua 20 y cant o'u myfyrwyr rôl-radd uwchradd yn fyfyrwyr oedd yn hanu o Gymru, tra bod yr ail yn amcangyfrif bod hynny yn tua 10 i 15 y cant o'r holl hyfforddeion ôl-radd ITE. Awgrymodd un rhanddeiliad bod 'tua 10 y cant sydd wedi dechrau eu ANG [yn y maes yma] wedi astudio mewn prifysgol yn Lloegr', sydd yn unol â'r data a nodir yn Adran 5.
- 6.19 Yn ogystal â lefelau bwrsariaeth, datgelodd y gwaith maes bod yna nifer o ffactorau eraill sydd yn bodoli sydd yn gyfrifol am y cynnydd yn y llif dros y ffin mewn perthynas â

²³ 235 o 660.

hyfforddeion sydd yn hanu o Gymru sydd yn penderfynu hyfforddi yn Lloegr. **Y ffactorau eraill a amlygwyd oedd:**

- **Gwahaniaethau mewn gofynion cymhwyso ar lefel TGAU** - Roedd darparwyr ITE o Gymru a gyfwelwyd yn awgrymu bod y gwahaniaeth rhwng Cymru a Lloegr o ran gofynion cymhwyso Saesneg a Mathemateg TGAU yn golygu bod rhai ymgeiswyr yn gallu hyfforddi yn Lloegr ond nad oeddent yn gallu hyfforddi yng Nghymru. Er enghraifft, byddai ymgeisydd gyda gradd C mewn Mathemateg TGAU yn cael ei dderbyn ar y cwrs yn Lloegr ond nid yng Nghymru. Dadleuodd dau ddarparwr o Gymru a gyfwelwyd bod hynny yn effeithio ar eu gallu i recriwtio hyfforddeion, a nododd y ddau ddarparwr o Lloegr bod hynny wedi cael ei amlygu fel ffactor ymysg myfyrwyr oedd yn hanu o Gymru. Ond, roedd eraill yn cwestiynu dilysrwydd y ddadl honno oherwydd bod cyflwyno profion cywerthedd TGAU yn galluogi i ymgeiswyr â graddau C yn y pynciau yma arddangos bod eu gallu ar lefel gyfwerth. Codwyd nifer o bwyntiau mewn perthynas â'r profion cywerthedd yn cynnwys diffyg ymwybyddiaeth ymysg darpar ymgeiswyr y gallent ddilyn y llwybr yma (dywedodd un hyfforddai nad yw'r 'prawf cywerthedd yn cael ei hysbysebu yn dda iawn') a diffyg un ymagwedd gyson ar draws darparwyr yng Nghymru h.y. mae'r holl ddarparwyr yn gweinyddu eu prosesau asesu eu hunain
- **Ansawdd y ddarpariaeth** - awgrymodd rhai rhanddeiliaid yn benodol bod y gwahaniaeth yn ansawdd y ddarpariaeth (fel y mesurir hynny gan adroddiadau arolwg Ofsted ac Estyn) yn gyfrifol am ychydig o'r duedd tuag at nifer cynyddol o hyfforddeion sydd yn hanu o Gymru yn dewis astudio yn Lloegr. Adroddwyd bod gan ddarparwyr dros y ffin yng ngogledd Lloegr (e.e. Caer, Edgehill) adroddiadau Ofsted da iawn a bod ganddynt 'enw da iawn' yn y farchnad. Dywedodd un rhanddeiliad a gyfwelwyd: 'pan ydych yn cymharu adroddiadau Ofsted ac Estyn, nid yw Bangor yn cymharu'n dda â Chaer ac Edgehill²⁴'
- **Agosrwydd daearyddol** - adroddwyd yn aml gan ddarparwyr ITE yng Nghymru a Lloegr bod nifer fawr o hyfforddeion oedd yn dewis astudio dros y ffin yn Lloegr yn tueddu i fod yn rhai oedd yn byw yn agos ar gampysau darparwyr ac y gallent felly gymudo'n gymharol hawdd er mwyn mynychu'r cwrs. Atgyfnerthwyd hynny gan ddarparwyr yn Lloegr a gyfwelwyd ac mewn un achos arsylwyd bod y duedd wedi cael ei hwyluso yn ddiweddar drwy ddiddymu toll Pont Hafren. Yn yr achos arall adroddwyd

²⁴**Noder:** Os bydd yr adroddiad yma yn cael ei gyhoeddi dylid dileu cyfeiriadau at ddarparwyr ITE unigol.

bod y rhan fwyaf o'r myfyrwyr oedd yn hanu o Gymru yn dod o ogledd ddwyrain Cymru.

- **Lleoliadau addysgu mewn ysgolion yng Nghymru** - Adroddodd darparwyr ITE yn Lloegr y gallent wneud trefniadau i hyfforddeion ymgymryd â rhan o'u profiadau lleoliad gwaith mewn ysgolion yng Nghymru cyn belled â'u bod yn bodloni gofynion DfE a'u bod yn ymgymryd ag ychydig dros hanner eu lleoliad addysgu mewn ysgol yn Lloegr. Yn y ddau achos adroddodd darparwyr yn Lloegr bod ganddynt berthynas dda ag ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru, a dadleuodd un darparwr: 'Mae hynny yn bendant yn elfen ddeniadol o'r ddarpariaeth yr ydym yn ei gynnig yma i fyfyrwyr sydd yn hanu o Gymru. Maent yn gofyn y cwestiwn, ac er na allwn warantu lleoliad iddynt yng Nghymru, rydym i bob pwrpas yn llwyddo i wneud hynny bob amser'
- Dim uchafswm ar niferoedd hyfforddeion - ers i Lloegr ddiddymu ei pholisi o bennu uchafswm ar niferoedd hyfforddeion mewn sefydliadau ITE, awgrymwyd bod darparwyr yn Lloegr mewn gwell sefyllfa i dderbyn nifer mwy o hyfforddeion ITE nag yr oeddent yn hanesyddol, ac efallai bod hynny wedi bod yn gyfrifol am beth twf yn nifer y myfyrwyr sydd yn hanu o Gymru sydd yn astudio dros y ffin. Ond, heriwyd y pwynt yma gan gyfweleion eraill yng ngoleuni'r ffaith nad oedd gan ddarparwr o Gymru (sydd yn gweithredu o dan bolisi uchafswm) brofiad diweddar o wrthod ymgeiswyr cyn belled â'u bod yn bodloni gofynion mynediad. Wedi ei alinio â hynny, arsylwyd hefyd bod diddymu'r 'cap' wedi golygu bod darparwyr yn Lloegr yn cynyddu eu hymdrechion marchnata ac yn mabwysiadu dull mwy cystadleuol (ar adeg pan nad oedd darparwyr yng Nghymru yn barod i ymateb mewn ffordd gyffelyb).

6.20 Cytunwyd yn gyffredinol gan ddarparwyr ITE yng Nghymru a Lloegr, yn ogystal â rhanddeiliaid a gyfwelwyd, bod hyfforddeion TAR uwchradd yn fwy tebygol na'u cymheiriaid cynradd o fod yn barod i deithio ymhellach ar gyfer eu hastudiaethau ITE. Byddai hynny yn cyfrif am y gyfran is o hyfforddeion ôl-radd cynradd sydd yn hanu o Gymru sydd yn penderfynu astudio yn Lloegr. Dadleuodd un darparwr o Gymru bod 'myfyrwyr uwchradd yn fwy hyderus i symud i ffwrdd, yn fyw tebygol o fod yn rhai sydd eisiau newid gyrfa. Mae myfyrwyr cynradd yn fwy plwyfol'. O ganlyniad i hynny, awgrymwyd nad yw unrhyw wahaniaeth rhwng lefelau bwrsariaethau a dargedir at y sector cynradd yng Nghymru a Lloegr yn effeithio'n arwyddocaol ar lefelau a thueddiadau recriwtio cynradd.

6.21 Gwnaeth nifer o ddarparwyr ITE yng Nghymru arsylwadau ynghylch y gostyngiad mewn myfyrwyr sydd yn hanu o Loegr sydd yn cofrestru gyda darpariaeth ITE yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diweddar - gan ychwanegu y gallai gostyngiad o'r fath ddatsefydlogi'r sector petai hynny yn parhau ar yr un lefelau. Tybiwyd bod y duedd yma wedi ei hysgogi gan nifer o ffactorau yn cynnwys y dargyfeirio cynyddol rhwng addysg a darpariaeth cwricwlwm yng Nghymru a Lloegr yn ogystal â'r ffactorau hynny yr adroddir amdanynt uchod y tybiwyd oedd yn gyfrifol am y cynnydd yn y llif o hyfforddeion dros y ffin.

Beth sydd i gyfrif am y gostyngiad yn niferoedd hyfforddeion ITE?

6.22 Ar wahân i'r nifer cynyddol o hyfforddeion sydd yn dewis astudio y tu allan i Gymru, nodwyd ystod eang o ffactorau eraill hefyd gan gyfranwyr er mwyn egluro'r gostyngiad cyffredinol yn niferoedd yr hyfforddeion ITE sydd yn cofrestru gyda sefydliadau darparwyr yng Nghymru. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cyflwynwyd dadl gref iawn gan yr holl gyfranwyr bod y proffesiwn addysgu erbyn hyn yn cael ei **ystyried mewn goleuni mwy negyddol** nag yr oedd yn hanesyddol, a bod y canfyddiad hwnnw yn cael ei ysgogi yn rhannol gan sylw negyddol ar y cyfryngau. Dadleuodd un hyfforddai 'rwyf yn credu bod gan y cyfryngau lawer i ateb amdano. Y cwbl yr ydych yn clywed amdano yw'r trafferthion sydd yn gysylltiedig ag addysgu - materion iechyd meddwl, hunanladdiad, straeon erchyll drwy'r amser'. Dadleuwyd bod canfyddiad o statws is ynghylch y proffesiwn addysgu yn effeithio ar recriwtio yn y sector. Roedd materion mewn perthynas â llwyth gwaith trwm, patrymau gweithio anhyblyg, pryderon am ymddygiad disgyblion, cyflog nad yw'n apelgar ac amodau a thoriadau ariannol ar draws y sector addysg wedi golygu bod y proffesiwn yn llai apelgar i ddarpar ymgeiswyr y tybiwyd eu bod yn gynyddol yn rhoi pwyslais ar ystyriaethau gwaith-bywyd wrth ystyried opsiynau gyrfa. Nododd un cyfrannwr bod darpar ymgeiswyr yn gynyddol yn cwestiynu a oedd yr enillion ariannol yn werth y llwyth gwaith trwm oedd yn gysylltiedig â'r swydd
- Adroddodd un rhanddeiliad bod y 'naratif yn ymwneud â thoriadau i ysgolion...ac nid oes digon yn cael ei wneud i hyrwyddo y cyffro presennol yn y sector addysg...y cwricwlwm newydd, safonau addysgu newydd, gwaith yr Academi Genedlaethol'. Roedd cyfranwyr yn credu y byddai mynd i'r afael â'r materion yma yn helpu i ddatrys heriau recriwtio yn yr hirdymor: 'os byddwch yn **datrys y materion hirdymor**, bydd y rhai tymor byr yn disgyn i'w lle'.

- Hefyd lleisiodd rhai cyfranwyr eu pryderon bod darpar hyfforddeion yn gyndyn o ystyried y proffesiwn addysgu oherwydd materion yn gysylltiedig â **chyflog athrawon, contractau ac amodau gwaith**, yn cynnwys prinder swyddi parhaol llawn amser a defnydd cynyddol o swyddi cyfnod penodol. Arsylwyd bod athrawon llanw yn yr un modd yn ddarostyngedig i delerau ac amodau gwaith gwael. Roedd cyfranwyr yn galw am lwybrau dilyniant proffesiynol cliriach yn y byd addysg gyda mwy o sicrwydd i'r proffesiwn a llai o risg i staff golli swyddi. Hefyd roedd yna alwad am well cydnabyddiaeth yn y proffesiwn: 'o'i gymharu â mannau eraill yn y hyd, nid yw cyflog athrawon yn wych. Yng Nghanaada rydych yn cael £70k y flwyddyn yn ôl pob sôn. Mae yna fwy o barch i'r proffesiwn yno. Yn Asia hefyd, mae athrawon yn cael gofal rhyfeddol' (hyfforddai ITE)
- Mynegwyd safbwynt cymysg ynghylch sut yr oedd **lefelau dyled myfyrwyr** yn effeithio ar niferoedd y myfyrwyr oedd yn ystyried dilyn cwrs ITE. Yn fras, casglwyd ychydig iawn o dystiolaeth yn ystod yr astudiaeth yma er mwyn gwella ein dealltwriaeth o sut mae dyled myfyrwyr rhwng myfyrwyr yng Nghymru a Lloegr yn effeithio ar y niferoedd sydd yn dilyn cyrsiau ITE. Ychydig iawn o ymwybyddiaeth oedd gan ddarparwyr ITE o sut yr oedd lefelau dyled myfyrwyr yn effeithio ar benderfyniadau darpar hyfforddeion i astudio, er y cydnabuwyd yn gyffredinol bod gan raddedigion diweddar ddyled myfyrwyr sylweddol. Adroddodd hyfforddeion a gyfwelwyd bod ganddynt lefelau uchel o ddyled ond roeddent yn eithaf diffuant na fyddent naill ai fyth yn gorfod ad-dalu benthyciadau ffioedd dysgu neu o leiaf ond yn gorfod ad-dalu symiau isel iawn.
- Mewn perthynas ag effaith unrhyw **ymgyrchoedd recriwtio athrawon cenedlaethol** yng Nghymru, roedd cyfranwyr i'r astudiaeth hon yn credu bod Cymru 'ar ei hôl hi' o'i gymharu ag ymgyrchoedd recriwtio athrawon yn Lloegr. Roedd cyfranwyr yn rheolaidd yn cyfeirio at fodolaeth y ddwy wefan oedd wedi eu sefydlu ar gyfer recriwtio hyfforddeion yng Nghymru a Lloegr. 'Darganfod Addysgu'²⁵ a 'Let's get into teaching'²⁶. Dywedwyd nad oedd gan Darganfod Addysgu yr un wybodaeth fanwl â'r fersiwn yn Lloegr ar hyn o bryd a'i fod yn 'tanwerthu' y ddarpariaeth yng Nghymru: 'Nid yw Lloegr yn swil wrth hyrwyddo y ddarpariaeth sydd ganddi i'w gynnig'. Yn benodol, dywedwyd y dylid gweud mwy o ymdrech i hyrwyddo'r cwricwlwm trawsffurfiol yng Nghymru a'r ffaith y gallai astudio arwain at gymhwyster Meistr. Mewn gwirionedd

²⁵ <https://www.discoverteaching.wales/>

²⁶ <https://getintoteaching.education.gov.uk/>

awgrymwyd y dylid defnyddio'r amgylchedd 'cadarnhaol' oedd yn bodoli yng Nghymru fel rhan o'r ymgyrch farchnata: 'mae'r wefan [yng Nghymru] yn werth ei chael ond mae angen ei gwella. Mae angen iddi bwysleisio manteision mynd i fyd addysg'. Hefyd, ystyriwyd bod ymgyrch recriwtio effeithiol yn hanfodol o ystyried 'os na allwn gyfateb yr hyn a gynigir [yn Lloegr] mae angen i ni gael ymgyrch dda iawn sydd yn canolbwyntio ar y pecyn cyfan y gall Cymru gynnig iddynt'.

- 6.23 Amlygwyd rhai o'r materion yma gan hyfforddeion yn ystod y gwaith maes er bod i ba raddau yr ystyrir bod y proffesiwn yn un sy'n ennyn parch yn amrywio:

Roedd Anna wedi gwneud ychydig o brofiad gwaith fel athrawes pan oedd yn yr ysgol a syrthiodd mewn cariad gyda'r proffesiwn. Penderfynodd yn y fan a'r lle ei bod eisiau bod yn athrawes. Astudiodd Fioleg fel myfyrwraig israddedig ym Mhrifysgol Caerdydd ac yna yn gynnar iawn yn ei thrydedd blwyddyn cyflwynodd ei chais i astudio ar gyfer TAR uwchradd mewn gwyddoniaeth ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd. Roedd Anna wedi cael ei synnu gyda'r llwyth gwaith oedd wedi bod yn rhan o'r cwrs. Mae yn wirioneddol wedi mwynhau ei lleoliadau gwaith yn yr ysgol ac wedi derbyn cymorth gan 'fentoriaid rhyfeddol'. Ond, mae Anna yn teimlo nad yw addysgu fel proffesiwn yn cael ei werthfawrogi yng Nghymru nac yn y DU yn ehangach. O ganlyniad i hynny mae erbyn hyn yn ystyried Dubai fel opsiwn yn y dyfodol agos fel lle i weithio ynddo. Teimlodd Anna y byddai yn cael gwell cyflog a pharch yn y proffesiwn yn y wlad honno.

Roedd Rebecca wedi astudio Seicoleg fel myfyrwraig israddedig a lefel Meistr, ac yn aeth i'r byd corfforaethol gan weithio am nifer o flynyddoedd fel dadansoddwr data. Roedd wedi gweithio i gorfforaethau mawr byd-eang ac wedi mynd 'drwy'r felin, ar yr olwyn mochyn cwta'. Felly, roedd y cymhelliant di-dreth i astudio Mathemateg yn golygu y gallai ymgeisio am y cwrs TAR yng Nghymru ac na fyddai ar ei cholled yn ariannol o ganlyniad i hynny. Gweithiodd Rebecca hefyd am 20 awr yr wythnos i gwmni digwyddiadau er mwyn ategu ei hincwm.

Nid oedd yn teimlo bod llwyth gwaith y cwrs mor ddrwg â hynny, yn arbennig oherwydd ei bod wedi gweithio oriau mawr iawn yn y sector preifat. Disgrifiodd Rebecca sut 'mae angen i chi fod yn hynod effeithlon. Nid wyf yn credu ei fod mor ddrwg â hynny - mae'n broffesiwn

bendigedig'. Roedd hefyd yn teimlo bod y proffesiwn addysgu yn cael ei barchu fwy yng Nghymru nag yn Lloegr.

Roedd Rebecca yn hapus bod ei gradd dosbarth cyntaf wedi arwain at fwrariaeth uwch iddi, er nad oedd ei gradd israddedig na'i gradd Meistr mewn Mathemateg. Roedd yn teimlo bod yr ymagwedd yma yn cynnig gwerth ac yn gwobrwyo'r ymdrech, amser a'r arian yr oedd unigolyn wedi ei fuddsoddi eisoes yn ystod ei addysg ei hun.

Ond roedd Rebecca yn credu y dylai pob myfyriwr TAR, beth bynnag fo'u dosbarthiad gradd neu bwnc, dderbyn o leiaf yr hyn sydd yn cyfateb i'r lleiafswm cyflog am eu hamser ar y cwrs, er mwyn ei wneud yn ariannol hyfyw - yn enwedig os oedd unigolyn yn amcanu at newid gyrfa.

- 6.24 Mewn perthynas â pholisi Llywodraeth Cymru i ddylanwadu ar niferoedd hyfforddeion ITE arsylwyd bod y penderfyniad i hyfforddi llai o bobl ar gyfer y proffesiwn (fel ymateb i ostyngiad yn niferoedd disgyblion ysgol) tua pum mlynedd yn ôl yng Nghymru yn briodol ar yr adeg, ond bod hynny wedi arwain at brinder presennol o ystyried bod 'unrhyw waged erbyn hyn wedi cael ei ddefnyddio ac nad oes dim cyflenwad wrth gefn'.
- 6.25 Yn fras, ni chredwyd bod y broses achredu ddiweddar i benodi darparwyr ITE ar draws Cymru wedi effeithio ar recriwtio hyfforddeion oedd yn hanu o Gymru hyd yma - yn bennaf oherwydd nad oedd y newid mewn sefydliadau darparwyr yn arwyddocaol ac nad oedd y strwythur newydd (fydd yn cael ei roi ar waith o Fedi 2019) wedi cael ei weithredu eto. Ond cydnabuwyd bod y 'ddarpariaeth a gynigir' ar hyn o bryd yng Nghymru ar gyfer hyfforddeion ITE yn gymharol unffurf yn yr ystyr mai'r unig lwybr presennol i fyd addysg oedd drwy gwrs llawn amser. Croesawyd y llwybr Prifysgol Agored newydd i fyd addysg gan randdeiliaid yn arbennig oedd yn credu y byddai'r llwybr amgen yma i fyd addysg yn helpu i recriwtio unigolion sydd yn ystyried newid gyrfa. I'r gwrthwyneb, mae adborth gan ddarparwyr ITE yn Lloegr yn awgrymu bod darpariaeth AU yn cyfateb i tua hanner y rhai sydd yn cael eu hyfforddi ar gyfer y proffesiwn, a bod darpariaeth dan arweiniad ysgolion yn gysylltiedig â'r hanner arall.
- 6.26 Ond arsylwodd rhai cyfranwyr y gallai'r ffocws cynyddol ar sicrhau bod darpariaeth ITE yn cael ei anelu'n fwy at anghenion addysgol Cymreig, yn cynnwys y cwricwlwm newydd a chynyddu darpariaeth sgiliau iaith Gymraeg, fod yn cymell darpar ymgeiswyr sydd yn hanu o Loegr rhag ystyried cwrs yng Nghymru. Arsylwodd un cyfrannwr o'r fath 'ni allwch eu beio, os

dynt yn edrych i mewn ac yn gweld ei fod yn bwrpasol ar gyfer Cymru, byddant yn llai tebygol o hyfforddi yma'. Wedi ei alinio â hynny, roedd cyfranwyr eraill yn credu bod y ddarpariaeth neilltuol oedd ar gael yng Nghymru yn arwain at greu cronfa ddeniadol iawn o athrawon arloesol ar gyfer Lloegr sydd wedi eu hyfforddi yng Nghymru: 'Yn Lundain maent yn sgrechian am athrawon cymwys o Gymru - maent yn credu bod y cwricwlwm newydd yma yn golygu eu bod yn cael athrawon sydd â syniadau ffres' (hyfforddai ITE).

Cwblhau ITE a chadw athrawon

- 6.27 Mewn perthynas â thueddiadau presennol ar gyfer cyfraddau cwblhau ITE, mae darparwyr yng Nghymru yn awgrymu bod y rhain yn eithaf da, a gwelwyd enghreifftiau o welliannau yn ddiweddar. Awgrymwyd bod hyfforddeion yn tueddu i dynnu'n ôl naill ai am resymau neu amgylchiadau personol neu yn penderfynu gwneud hynny ar 'adegau anodd' yn ystod y flwyddyn, megis ar ddechrau eu lleoliad gwaith cyntaf, ar ôl gwyliau'r Nadolig neu ar ddechrau eu hail leoliad gwaith.
- 6.28 Mewn perthynas â chadw athrawon awgrymwyd bod cyfraddau cadw athrawon cynradd yn uwch nag ar gyfer athrawon uwchradd. Ar draws y sector uwchradd, tybiwyd bod y cyfraddau cadw yn amrywio gyda thystiolaeth anecdotaidd gan un consortia addysg yn adrodd bod cyfraddau Saesneg ac AG yn dda tra bod Gwyddoniaeth a TG yn is.
- 6.29 Awgrymodd cyfranwyr bod rhwng 600 a 700 o athrawon yn gadael y proffesiwn yn gynnar bob blwyddyn yng Nghymru oherwydd ffactorau megis amodau gwaith, llwyth gwaith eithriadol drwm ac oriau gwaith mawr, anhyblygrwyd y swydd ac er mwyn gallu darparu cydbwysedd gwaith-bywyd, diffyg swyddi parhaol yn hytrach na swyddi cyfnod penodol a phryderon ynghylch newidiadau i drefniadau pensiwn.
- 6.30 Roedd thai cyfranwyr yn ymwybodol o bolisi DfE newydd o gyflwyno bwrsariaethau cadw ar gyfer athrawon newydd, ond at ei gilydd canfu'r gwaith maes ei bod yn rhy gynnar i ddod i gasgliad ynghylch sut effaith fyddai hynny yn ei gael ar fynd i'r afael â phroblemau cadw athrawon yn y sector. Roedd llond llaw o gyfranwyr yn gyffredinol yn croesawu cyflwyno bwrsariaethau cadw gan ddadlau ei bod yn briodol symud y ffocws oddi ar recriwtio cychwynnol i gadw athrawon. Roedd eraill yn fwy amheus gan ddadlau y byddai cynnig cymhelliant ariannol ond yn ymestyn yr anochel pe byddai athrawon yn wirioneddol eisiau gadael y proffesiwn. Ond roedd yna gonsensws na fyddai cymelliadau cadw, ar ei ben ei hun, yn datrys problemau cadw, a phetai hynny yn cael ei fabwysiadu yng Nghymru y dylai fod yn rhan o ddatrysiad ehangach fyddai'n cynnwys mynd i'r afael ag amodau gwaith. Ymysg y sylwadau a wnaethpwyd cafwyd: 'nid cymelliadau ariannol [i athrawon] yw'r ffactor

tyngedfennol...mae'n ymwneud yn fwy â chael pethau eraill yn iawn: y gwaith, dilyniant, datblygiad proffesiynol' a 'ni fydd unrhyw swm o arian yn cymell pobl i aros yn y dosbarth os ydynt yn casáu'r gwaith'.

Y Dyfodol

6.31 Pan ofynnwyd iddynt ynghylch y newidiadau allweddol y byddent yn hoffi eu gweld i bolisi Llywodraeth Cymru ynghylch cymelliadau ariannol ITE a gofynion cymhwyso yng Nghymru, mae'n bosibl crynhoi'r negeseuon allweddol fel:

- Cyfateb i'r fwrsariaeth lefel uchaf sydd ar gael yn Lloegr (er bod cyfranwyr wedi cwestiynu fforddiadwyedd y polisi yma)
- Cefnogi nifer fwy o hyfforddeion gyda lefel ystyrlon o fwrsariaeth ariannol
- Symud tuag at gynnig darpariaeth deg ar draws meysydd pwnc
- Dileu'r fwrsariaeth isaf bresennol o £3,000 oherwydd credid nad oedd hynny yn ychwanegu llawer o werth yn nhermau recriwtio a chadw athrawon ar y cwrs
- Alinio cyrhaeddiad Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg TGAU â'r hyn sydd yn ofynnol yn Lloegr (h.y. Gradd C neu uwch yn hytrach na Gradd B neu uwch) neu gyflwyno prawf cywerthedd cyffredinol ar gyfer ymgeiswyr a'i hyrwyddo yn well
- Cynyddu ymdrechion marchnata er mwyn cynnwys hyrwyddo'r pecyn cyflawn o gymorth ariannol sydd ar gael h.y. cynnwys y fwrsariaeth ariannol, gostyngiad mewn ffioedd i rai sy'n hanu o Gymru a chymhelliant ariannol cyfrwng Cymraeg.

7. Casgliadau ac Argymhellion

- 7.1 Mae'r bennod olaf yma yn cyflwyno casgliadau ac argymhellion i CGA eu hystyried.
- 7.2 Disgwylir y bydd poblogaeth ysgolion uwchradd Cymru yn tyfu 10 y cant rhwng 2018 a 2023. Mae hynny yn achosi heriau sylweddol i lunwyr polisi yng Nghymru. Ar ôl ei leihau yn ystod y ddegawd olaf er mwyn adlewyrchu gostyngiad yn niferoedd disgyblion, erbyn hyn bydd angen cynyddu nifer yr athrawon gaiff eu recriwtio oherwydd cynnydd yn y boblogaeth disgyblion. Mae llunwyr polisi yn Lloegr wedi bod yn eithriadol weithgar yn ystod y ddegawd olaf o ran ymdrech i wella cyfraddau recriwtio a chadw athrawon er mwyn ateb y cynnydd yn niferoedd disgyblion, sydd wedi tyfu'n sylweddol eisoes. Felly mae'r farchnad ar gyfer athrawon newydd yn debygol o fod yn un cystadleuol.
- 7.3 Yn 2012/13 cyflwynodd llunwyr polisi yng Nghymru a Lloegr fwrsariaethau ITE wedi eu hanelu yn fwy tuag at bynciau blaenoriaeth uchel a graddedigion â dosbarthiadau gradd uchel. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd y rhain yn uwch yn Lloegr. Ers hynny mae'r system wedi bod yn sefydlog i raddau helaeth yng Nghymru. Yn Lloegr, o'i gymharu, bu newidiadau rheolaidd. Mae bwrsariaethau yn Lloegr wedi cynyddu'n sylweddol i raddedigion sydd â dosbarthiad gradd is, fel nad oes bron i ddim amrywiaeth yn ôl dosbarthiad gradd blaenorol. O ganlyniad i hynny, mae hyfforddai mewn bioleg neu ddaearyddiaeth sydd â gradd 2:2 erbyn hyn yn derbyn bwrsariaeth o £26,000 o'i gymharu â dim yng Nghymru.
- 7.4 Cafwyd problemau parhaus yn y ddwy wlad o ran recriwtio athrawon mewn pynciau blaenoriaeth uchel, megis Mathemateg, Ffiseg, Cemeg ac Ieithoedd Tramor Modern. Yn Lloegr nid oes dim tystiolaeth bod bwrsariaethau uchel a gwahaniaethol wedi gwneud gwahaniaeth mawr. Yn gyffredinol mae perfformiad yn erbyn targedau recriwtio wedi bod yn gwaethygu yn y pynciau yma. Rhoddwyd darlun cyffelyb gan ddarparwyr ITE yng Nghymru ynghylch problemau parhaus o ran recriwtio yn y cyfryw bynciau. Roeddent hefyd yn cyfeirio at heriau parhaus o ran recriwtio athrawon ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, er gwaetha'r bwrsariaethau ychwanegol a gynigir.
- 7.5 Mae yna dystiolaeth sydd yn awgrymu bod y cynnydd mawr mewn bwrsariaethau ar gyfer Daearyddiaeth, Saesneg a Bioleg yn Lloegr wedi cynyddu'r lefel recriwtio yn y pynciau hynny. Ers y cynnydd mawr ar ôl 2016/17, oedd fwyaf ar gyfer rhai â dosbarthiadau gradd is, bu ymchwydd mewn niferoedd recriwtio yn y pynciau hynny. Cadarnhawyd hynny gan gyfweiliadau gyda darparwyr ITE yng Nghymru a siaradodd am y problemau mae hynny yn ei achosi oherwydd ei bod yn llawer mwy buddiol yn ariannol i hyfforddi yn Lloegr yn y pynciau

hynny. Ond, mae'n amlwg hefyd bod newidiadau rheolaidd yn Lloegr wedi arwain at ansicrwydd mawr a dryswch ymysg hyfforddeion a darparwyr.

- 7.6 Yn anffodus, nid yw niferoedd recriwtio a hyfforddi yng Nghymru ond ar gael ar gyfer 2016/17, tra bod data ar gyfer Lloegr ar gael hyd at 2018/19. Mae hynny yn golygu bod gan lunwyr polisi yng Nghymru lai o wybodaeth ar gael ar adeg allweddol yn y maes polisi yma. Ond rydym yn gwybod bod llif dros y ffin o Gymru i Lloegr wedi cynyddu. Ma nifer yr hyfforddeion sydd yn hanu o Gymru sydd yn dilyn cyrsiau yn Lloegr wedi codi o 23 y cant yn 2010/11 i 34 y cant erbyn 2016/17. Awgrymodd darparwyr ITE bod hynny wedi cynyddu mwy mae'n debyg yn ystod y blynyddoedd diweddar.
- 7.7 O ystyried maint yr heriau sydd yn wynebu llunwyr polisi yng Nghymru, rydym yn cynnig yr argymhellion polisi canlynol:
- **Cynnig bwrsariaeth symlach a mwy safonol yng Nghymru** - Dylai bwrsariaethau ITE yng Nghymru gael eu safoni yn ôl dosbarthiad gradd blaenorol. Nid oes yna fawr o dystiolaeth sydd yn awgrymu bod targedu bwrsariaethau at bynciau blaenoriaeth uchel a dosbarthiadau gradd uchel wedi gwneud llawer o wahaniaeth i niferoedd recriwtio athrawon hyn y pynciau yma yng Nghymru a Lloegr. Roedd darparwyr ITE yn teimlo y gallai targedu bwrsariaethau yn fwy eang helpu i gynyddu niferoedd recriwtio yn gyffredinol a darparu neges gliriach i ddarpar hyfforddeion.
 - **Mwy o wariant ar fwrsariaethau yng Nghymru** - O ystyried maint y cynnydd mewn bwrsariaethau yn Lloegr yn ystod y blynyddoedd diweddar - Saesneg, Bioleg a daearyddiaeth yn benodol - efallai y bydd angen gwario mwy er mwyn cystadlu'n effeithiol am hyfforddeion. Gellid ariannu peth cynnydd mewn gwariant drwy ostwng y cyfraddau uchaf ar gyfer graddau dosbarth cyntaf mewn pynciau blaenoriaeth uchel, neu drwy ddiddymu'r bwrsariaethau o £3,000 ar gyfer rhai pynciau. Ni theimlwyd bod yr olaf yn gymhelliant mawr beth bynnag.
 - **Ystyried canolbwyntio ar arbenigedd pwnc** - Ar hyn o bryd telir cymelliadau ITE yn amodol ar bwnc hyfforddi yn hytrach na'r pwnc yr astudiwyd yn y brifysgol. Teimlwyd bod hynny yn creu cymelliadau gwrthnysig i hyfforddi mewn pynciau sydd â bwrsariaethau uchel, hyd yn oed os oedd gan hyfforddeion radd mewn pwnc arall (e.e. Graddedigion Bioleg yn hyfforddi i addysgu Cemeg). Nid yw'n glir y gall cymell unigolion sydd â dosbarthiadau gradd uchel i newid disgyblaethau'n effeithiol arwain at effeithiau cadarnhaol yn gyffredinol. Ond mae yna dystiolaeth dda sydd yn awgrymu y gall lefelau

dyfnach o wybodaeth am bwnc wella effeithiolrwydd athrawon yn gyffredinol²⁷. Gallai llunwyr polisi yng Nghymru greu cynnig penodol o dalu bwrsariaethau ychwanegol os bydd unigolion yn hyfforddi mewn pwnc y mae ganddynt radd perthnasol uniongyrchol ynddo. Dylid cydbwyso hynny yn erbyn yr angen i gynnig darpariaeth syml a chlir. Ond, gallai hynny hefyd ganiatáu i ddarparwyr hysbysebu prif gyfradd uwch

- **Ymgyrch fwy amlwg ar gyfer recriwtio athrawon yng Nghymru** - Roedd bron yr holl ddarparwyr ITE yn teimlo bod angen ymgyrch fwy amlwg ar gyfer recriwtio athrawon yng Nghymru. Mae yna ystod o ymgyrchoedd gweithredol ac effeithiol yn Lloegr. Gyda newidiadau mawr i'r cwricwlwm a datblygiad proffesiynol eisoes yn mynd rhagddo, byddai angen i ymgyrch o'r fath yng Nghymru amlygu a gwerthu buddion a nodweddion neilltuol hyfforddi ac addysgu yng Nghymru.
- **Ymateb i'r Strategaeth Recriwtio a Chadw Athrawon yn Lloegr** - cyhoeddodd yr Adran Addysg strategaeth recriwtio a chadw athrawon newydd yn Lloegr. Mae hynny yn cynnwys fframwaith gyrfa gynnar newydd ar gyfer athrawon, gyda mwy o gyfleoedd mewn perthynas â datblygiad proffesiynol. Dylai llunwyr polisi yng Nghymru sicrhau bod yr hyn a gynnigir i athrawon newydd yng Nghymru yr un mor apelgar. Mae'r strategaeth newydd hefyd yn cynnig bonysau cadw fesul cam er mwyn cymell unigolion i aros ym myd addysg (a gallai hynny o bosibl fod yn amnewid am gyfran o'r bwrsariaethau ITE presennol). Mae yna dystiolaeth empirig dda sydd yn awgrymu bod taliadau cadw o'r fath yn effeithiol iawn o ran cadw athrawon yn y proffesiwn yn ystod y cyfnod gyrfa gynnar allweddol²⁸. Dylai llunwyr polisi yng Nghymru ystyried cynllun tebyg
- **Data mwy amserol ar recriwtio a chadw athrawon yng Nghymru** - Un cyfyngiad sydd perthyn i'n hastudiaeth yw bod data ar recriwtio a chadw athrawon yng Nghymru yn

²⁷ Ronald G. Ehrenberg and Dominic J. Brewer, 'Do School and Teacher Characteristics Matter? Evidence from High School and Beyond', *Economics of Education Review* 13, no. 1 (1 March 1994): 1–17, [https://doi.org/10.1016/0272-7757\(94\)90019-1](https://doi.org/10.1016/0272-7757(94)90019-1);

Thomas J. Kane, Jonah E. Rockoff, and Doug Staiger, 'What Does Certification Tell Us about Teacher Effectiveness? Evidence from New York City', *Economics of Education Review* 27, no. 6 (2008): 615–31;

Andrew J. Wayne and Peter Youngs, 'Teacher Characteristics and Student Achievement Gains: A Review', *Review of Educational Research* 73, no. 1 (2003): 89–122.


²⁸ Li Feng and Tim R. Sass, 'The Impact of Incentives to Recruit and Retain Teachers in "Hard-to-Staff" Subjects', *Journal of Policy Analysis and Management* 37, no. 1 (2018): 112–35; Charles Clotfelter et al., 'Would Higher Salaries Keep Teachers in High-Poverty Schools? Evidence from a Policy Intervention in North Carolina', *Journal of Public Economics* 92, no. 5–6 (June 2008): 1352–70, <https://doi.org/10.1016/j.jpubeco.2007.07.003>; Jennifer L. Steele, Richard J. Murnane, and John B. Willett, 'Do Financial Incentives Help Low-performing Schools Attract and Keep Academically Talented Teachers? Evidence from California', *NBER Working Paper No. 14780*, 2009, 40; Sam Sims, 'What Happens When You Pay Shortage-Subject Teachers More Money? Simulating the Effect of Early-Career Salary Supplements on Teacher Supply in England', *Gatsby Foundation*, n.d., 34

gymharol hen Ar hyn o bryd mae ar gael hyd at 2016/17 yn unig, a disgwylir data newydd ar gyfer 2017/18 ar ddiwedd mis Mai 2019. Mae hynny yn golygu bod llunwyr polisi yng Nghymru yn wynebu anfantais o'i gymharu â Lloegr (ble mae data ar gael hyd at 2018/19) ac mae'n cyfyngu ar eu gallu i ymateb i newidiadau diweddar. O ystyried y nifer fechan o ddarparwyr ITE yng Nghymru, dylai fod yn bosibl casglu data amserol a chywir am niferoedd recriwtio ITE yn ôl pwnc.


Atodiad A: Data ar fwrsariaethau a hyfforddeion ITE

Ffigwr A1 - Lefel cymhwysedd am fwrsariaeth yng Nghymru dros amser, yn ôl pwnc a dosbarthiad gradd

Dosbarth cyntaf (bwrsariaeth uchel a chanolig)





Ail ddosbarth uwch ac is (bwrsariaeth uchel)





Ffynonellau: Cymelliadau hyfforddiant Athrawon Llywodraeth Cymru yng Nghymru [2018/19](#), [2017/18](#), [2016/17](#), [2015/16](#), [2014/15](#), [2013/14](#), [2012/13](#), [2011/12](#), [2010/11](#)

Ffigwr A2 - Lefel cymhwysedd am fwrsariaeth yn Lloegr dros amser, yn ôl pwnc a dosbarthiad gradd



Dosbarth cyntaf



Ail ddosbarth uwch




Ail ddosbarth is




Ffynonellau a nodiadau: Yr Adran Addysg, canllawiau Bwrsariaeth ITT, [2012/13](#), [2013/14](#), [2014/15](#), [2015/16](#), [2016/17](#), [2017/18](#), [2018/19](#); Asiantaeth Datblygu Athrawon, Llawlyfr Cyllido [2010/11](#), [2011/12](#). Nid yw'r cymelliadau Mathemateg yn cynnwys y bonysau cadw o £5,000 ym mlwyddyn 3 a 5 yn ystod gyrfa addysgu.

Ffigwr A3 - (a) Nifer yr hyfforddeion ITE ôl-radd blwyddyn gyntaf a (b) Nifer yr hyfforddeion ITE blwyddyn gyntaf ar Radd Arall, yn ôl lefel ysgol a blwyddyn




Ffynhonnell: HESA (Mai 2018)

Ffigwr A4 - Cyfanswm yr hyfforddeion uwchradd yng Nghymru a Lloegr dros amser



Ffynonellau a nodiadau: Yr Adran Addysg, Cyfrifiad Hyfforddiant Addysgu Cychwynnol [2014/15](#), [2015/16](#), [2016/17](#), [2017/18](#), [2018/19](#). Nid yw'n cynnwys Teach First, oedd yn cynrychioli ychydig yn llai na 1,200 o hyfforddeion yn 2018/19.


Ffigwr A5 - Cyfran yr holl hyfforddeion ôl-radd ITT newydd yn Lloegr gyda gwahanol ddosbarthiad gradd dros amser




Ffynhonnell: Yr Adran Addysg, Cyfrifiad Hyfforddiant Addysgu Cychwynnol [2014/15](#) a [2018/19](#).

Ffigwr A6 - Niferoedd hyfforddion uwchradd yn ôl pwnc yng Nghymru dros amser


Bwrsariaeth Uchel



Bwrsariaeth Ganolig




Bwrsariaeth isel




Ffynhonnell: HESA (Mai 2018)

Ffigwr A7– Niferoedd hyfforddion uwchradd yn ôl pwnc yn Lloegr dros amser

Pynciau Bwrsariaeth Uchel




Pynciau Eraill



Ffynonellau a nodiadau: Yr Adran Addysg, Cyfrifiad Hyfforddiant Addysgu Cychwynnol [2010/11](#), [2011/12](#), [2012/13](#), [2013/14](#), [2014/15](#), [2015/16](#), 2016/17, [2017/18](#) [2018/19](#). Mae 2008/09 i 2010/11 yn cynnwys yr holl hyfforddion, mae 2011-12 ymlaen yn cynrychioli'r holl hyfforddion ôl-radd (ac eithrio Teach First); mae Saesneg yn cynnwys drama hyd at 2012-13 ac mae data o wahanol flynyddoedd yn awgrymu lefelau gwahanol ar gyfer 2011/12; data gwyddoniaeth unigol wedi ei gymryd o gyhoeddiadau blynyddoedd unigol o 2010/11 i 2013/14; mae Technoleg, Cyfrifiadura a Busnes wedi eu cyfuno oherwydd newid categorïau ar draws y blynyddoedd; mae Astudiaethau Cymdeithasol ac Eraill wedi eu cyfuno oherwydd newid categorïau ar draws


blynyddoedd. Nid yw'n cynnwys Teach First, oedd yn cynrychioli ychydig yn llai na 1,200 o hyfforddeion yn 2018/19.

Ffigwr A8 - Cyfran y myfyrwyr sydd yn hanu o Gymru ar gyrsiau ITE yn y DU sydd yn astudio yn Lloegr




Ffynhonnell: HESA (Mai 2018)

Ffigwr A9 - Cyfran y myfyrwyr sydd yn hanu o Gymru yn ôl rhanbarthau ar gyrsiau ITE yn y DU sydd yn astudio yn Lloegr AY2016/17




Ffynhonnell: HESA (Mai 2018)

Ffigwr A10 - Cyfran yr hyfforddeion blwyddyn gyntaf ar gyrsiau ITE yng Nghymru yn ôl y sir ble maent yn byw a blwyddyn




Ffynhonnell: HESA (Mai 2018)

Ffigwr A11 - Cyfran y myfyrwyr sydd yn hanu o Gymru sydd yn cymhwyso ar gyrsiau ITE yn ôl y wlad ble maent yn astudio




Ffynhonnell: HESA (Mai 2018)

Ffigwr A12 - Cyfran y myfyrwyr sydd yn cwblhau cyrsiau ITE yng Nghymru sydd yn aros yn y wlad, dros amser



Ffynhonnell: Arolwg Cyrchfan Arweinwyr HESA

Ffigwr A13: Swyddi addysgu a hysbysebir a phenodiadau a wnaethpwyd yng Nghymru, 2017



Ffynhonnell: AGGCC Llywodraeth Cymru